

Adroddiad ar y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Hydref 2024



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddDCC

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDCC@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddDCC**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Adroddiad ar y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Hydref 2024



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mai 2021.

Ceir ei gylch gwaith yn www.senedd.cymru/SeneddDCC

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:

Mike Hedges AS

Llafur Cymru



Natasha Asghar AS

Ceidwadwyr Cymreig



Alun Davies AS

Llafur Cymru



Adam Price AS

Plaid Cymru

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod y gwaith o graffu ar y Bil:



Samuel Kurtz AS

Ceidwadwyr Cymreig

Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	5
Diben y Bil.....	5
Cylch gorchwyl y Pwyllgor	8
2. Cymhwysedd deddfwriaethol	10
Cyffredinol.....	10
Hawliau dynol.....	11
Asesiadau effaith.....	18
Ein barn ni.....	20
3. Sylwadau cyffredinol	23
Datblygu'r Bil a'r angen amdano.....	23
Ymgynghoriad	23
Yr angen am ddeddfwriaeth newydd.....	25
Yr arddulliau drafftio a'r dewisiadau a fabwysiadwyd yn y Bil	27
Pwerau dirprwyedig a'r cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys mewn Is-ddeddfwriaeth.....	31
Cychwyn, trefniadau trosiannol a gweithredu arfaethedig	32
Ein barn ni.....	37
4. Sylwadau penodol ar Rannau ac adrannau penodol o'r Bil.....	43
Rhan 1 o'r Bil: Gofal cymdeithasol.....	43
Pennod 1: Darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant: cyfyngiadau ar elw.....	43
Adran 2 - Gwasanaethau plant o dan gyfyngiad	43
Ein barn ni.....	45

Adran 3 - Ceisiadau i gofrestru mewn perthynas â gwasanaethau plant o dan gyfyngiad.....	47
Ein barn ni.....	49
Adran 4 - Cofrestru mewn cysylltiad â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad: trefniadau trosiannol.....	51
Ein barn ni.....	52
Adran 6 - Person addas a phriodol: ystyriaethau perthnasol	53
Ein barn ni.....	53
Adran 11 - Dyletswydd i lunio a chyhoeddi cynllun digonolrwydd blynyddol.....	54
Ein barn ni.....	55
Adran 13 - Y ffyrdd y mae plant sy'n derbyn gofal i'w lletya	55
Ein barn ni.....	57
Pennod 2: Diwygiadau amrywiol mewn perthynas â gwasanaethau gofal cymdeithasol, gweithwyr gofal cymdeithasol a swyddogaethau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol.....	57
Adran 14 - Dyletswydd i gyflwyno a chyhoeddi datganiad blynyddol.....	57
Ein barn ni.....	58
Adran 19 - Achosion addasrwydd i ymarfer: pwerau i estyn gorchmynion interim.....	59
Ein barn ni.....	60
Adran 20 - Taliadau uniongyrchol ym maes gofal cymdeithasol.....	60
Ein barn ni.....	62
Rhan 2 o'r Bil: Gofal iechyd.....	63
Adran 24 - Taliadau uniongyrchol am ofal iechyd.....	63
Ein barn ni.....	65

Rhan 3 o'r Bil: Darpariaethau cyffredinol..... 68

Adran 28 – Darpariaeth ganlyniadol a darpariaeth drosiannol etc.... 68

Ein barn ni..... 68

1. Cyflwyniad

Ar 20 Mai 2024, cyflwynodd Dawn Bowden AS, y Gweinidog Gofal Cymdeithasol (y Gweinidog)¹, Fil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) (y Bil)², a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef.³

1. Cyhoeddodd y Gweinidog Ddatganiad Ysgrifenedig ar 20 Mai 2024:⁴
2. Gwnaeth y Gweinidog ddatganiad llafar i'r Senedd ar 21 Mai 2024.⁵
3. Cyfeiriodd Pwyllgor Busnes y Senedd y Bil i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a phennodd 11 Hydref 2024 fel y dyddiad cau ar gyfer adrodd ar ei egwyddorion cyffredinol.⁶
4. Cyhoeddodd y Gweinidog Ddatganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth i'w gwneud o dan y Bil ar 19 Mehefin 2024.⁷

Diben y Bil

5. Mae teitl hir y Bil yn datgan ei fod yn:

“gwneud darpariaeth ynghylch rheoleiddio a darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal iechyd yng Nghymru”.

6. Mae'r Gweinidog yn nodi yn y Memorandwm Esboniadol:

“Gan adeiladu ar y weledigaeth a nodwyd ym Mhapur Gwyn 2011 ar Wasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, mae cyfraith gofal cymdeithasol yng Nghymru wedi cael ei diwygio a'i chydgrynhai drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a

¹ Yn dilyn penodi Eluned Morgan AS yn Brif Weinidog fis Awst 2024, daeth Dawn Bowden AS yn Weinidog Plant a Gofal Cymdeithasol a chadwodd y cyfrifoldeb am y Bil, fel yr Aelod sy'n gyfrifol amdano

² [Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol \(Cymru\)](#), fel y'i cyflwynwyd

³ Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru), [Memorandwm Esboniadol](#), Mai 2024

⁴ Llywodraeth Cymru, [Datganiad Ysgrifenedig: Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol \(Cymru\)](#), 20 Mai 2024

⁵ [Y Cyfarfod Llawn](#), 21 Mai 2024

⁶ Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ar gyfer ystyried: Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol \(Cymru\)](#)

⁷ Llywodraeth Cymru, [Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol \(Cymru\)](#), [Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth](#), 19 Mehefin 2024

Llesiant (Cymru) 2014 (“Deddf 2014”) a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (“Deddf 2016”).

(...)

Drwy'r Rhaglen Lywodraethu wedi'i Diweddaru, mae Gweinidogion Cymru yn ceisio gwella gofal cymdeithasol, a'r rhyngwyneb iechyd a gofal cymdeithasol, yng Nghymru ymhellach.”⁸

7. Esbonia'r Gweinidog fod y Bil:

“yn cynnwys darpariaethau i wneud y canlynol:

(i) dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal;

(ii) galluogi cyflwyno Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG; a

(iii) gwneud diwygiadau i sicrhau bod Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gallu cael eu gweithredu'n llawn ac yn effeithiol.”⁹

8. Yn benodol, mae'r Gweinidog yn nodi yn y Memorandwm Esboniadol fod Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymïadau sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer ei gweledigaeth “i drawsnewid Gwasanaethau Plant yn sylfaenol”.¹⁰

9. Mae'r Gweinidog hefyd yn nodi:

“Mae'r ymrwymiad i ‘roi fframwaith ar waith i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal’ yn rhan glir o'n gweledigaeth ehangach ar gyfer newid ar draws y system gyfan. “... sicrhau nad yw arian cyhoeddus sy'n cael ei fuddsoddi mewn gofal i blant sy'n derbyn gofal – gan ddechrau â gwasanaethau cartrefi gofal i blant a gwasanaethau maethu – yn creu elw i unigolion neu endidau corfforaethol, ond yn hytrach yn cael ei wario ar wasanaethau plant, er mwyn darparu gwell profiadau a chanlyniadau i bobl ifanc; helpu i ddatblygu a gwella

⁸ Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.1 a 3.4

⁹ Memorandwm Esboniadol, paragraff 1.1

¹⁰ Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.25

gwasanaethau; a meithrin ymhellach ddatblygiad proffesiynol y rhai sy'n darparu gofal.

Mae adborth gan blant a phobl ifanc yn awgrymu bod ganddynt deimladau cryf am gael gofal gan sefydliadau preifat sy'n gwneud elw o'u profiad o fod mewn gofal. Mae Comisiynydd Plant Cymru a Voices from Care hefyd wedi ymgyrchu ar y mater. Roedd yn argymhelliad gan y Comisiynydd blaenorol yn ei hadroddiadau blynyddol a chafodd y mater ei gynnwys gan Voices from Care yn ymrwymiad yn ei fanifesto ar gyfer etholiad y Senedd.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn credu y dylid cael marchnad ar gyfer gofal i blant, nac y dylid gwneud elw o ofalu am blant sy'n wynebu heriau penodol yn eu bywydau ac mae'n cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon i roi terfyn ar hyn. Mae hyn yn golygu y bydd y gofal preswyl, llety diogel a gofal maeth i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn y dyfodol yn cael ei ddarparu gan sefydliadau'r sector cyhoeddus, sefydliadau elusennol neu sefydliadau nid-er-elw.

Nid cael gwared ar ddarparwyr er elw a chyflwyno trefn arall debyg yn ei lle yw ein nod. Yn hytrach, rydym am ailgydbwyso siâp a graddfa'r ddarpariaeth, gan gynnwys modelau gofal, cymorth cofleidiol a modelau perchnogaeth, fel rhan o'n gweledigaeth ehangach ar gyfer gwasanaethau plant i sicrhau eu bod yn seiliedig ar anghenion, yn integredig, yn lleol ac yn fforddiadwy.”¹¹

10. O ran cyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus (GIP), mae'r Gweinidog yn nodi yn y Memorandwm Esboniadol:

“Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi ymrwymiad i 'Wella'r rhyngwyneb rhwng gofal iechyd parhaus a Thaliadau Uniongyrchol'.

Darperir Gofal Iechyd Parhaus (GIP) pan fydd gan unigolyn angen iechyd sylfaenol sy'n drech na'i anghenion am ofal a chymorth arall, ac mae'n cael ei ailasesu'n rheolaidd. Mae'r GIG yn talu am anghenion iechyd a gofal yn gyfan gwbl yn unol â dyletswyddau o dan Ddeddf y GIG (Cymru) 2006 (“Deddf

¹¹ Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.26 i 3.29

2006”), heb godi unrhyw dâl ar y person sy’n cael y gofal. Mae hynny oherwydd ei bod yn rhaid i ofal iechyd gael ei ddarparu am ddim yn y man darparu. Nid yw taliadau uniongyrchol yn bosibl o dan Ddeddf 2006 ar hyn o bryd.”¹²

11. Mae’r Gweinidog yn mynd ymlaen i esbonio:

“Mae’r galw am newid polisi yn y maes hwn wedi bod yn cynyddu er mwyn mynd i’r afael â phryderon am annhegwch a diffyg llais a rheolaeth a wynebir gan bobl anabl a phobl ddifrifol wael. Ar hyn o bryd mae Byrddau Iechyd Lleol yn comisiynu cyfran sylweddol o’r rhan fwyaf o becynnau GIP gan ddarparwyr cartrefi gofal ac asiantaethau gofal cartref y sector preifat, a all, yn eu tro, brynu neu gomisiynu gofal iechyd megis nyrsio. Byddai cyflwyno taliadau uniongyrchol, felly, yn gwella llais a rheolaeth i unigolion drwy ganiatáu mwy o ddewis iddynt o ran sut, a chan bwy, y darperir eu gofal. Ar hyn o bryd nid oes gan unigolion lawer o reolaeth dros y ffordd y mae eu gofal yn cael ei ddarparu o dan GIP.”¹³

Cylch gorchwyl y Pwyllgor

12. Cylch gorchwyl y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad yw cyflawni swyddogaethau’r pwyllgor cyfrifol a amlinellir yn Rheolau Sefydlog 21 a 26C. Caiff y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater sy’n ymwneud â deddfwriaeth, datganoli, y cyfansoddiad, cyfiawnder a materion allanol sydd o fewn cymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, neu sy’n gysylltiedig ag ef, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

13. Wrth graffu ar Filiau a gyflwynir i’r Senedd, byddwn yn ystyried:

- materion sy’n ymwneud â chymhwysedd y Senedd, gan gynnwys pa mor gydnaws yw pob Bil â’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol;
- y cydbwysedd rhwng yr wybodaeth sydd wedi’i chynnwys ar wyneb y Bil a’r hyn a fydd yn cael ei adael i is-ddeddfwriaeth;
- a ddewiswyd gweithdrefn deddfwriaethol briodol, mewn perthynas â rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, i wneud is-ddeddfwriaeth;

¹² Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.43 i 3.44

¹³ Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.54

- unrhyw fater arall y credwn sy'n berthnasol i ansawdd deddfwriaeth.

14. Clywsom dystiolaeth lafar gan y Gweinidog ar 17 Mehefin 2024.¹⁴

15. Yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth, gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidog gyda chwestiynau pellach mewn perthynas â'r Bil.¹⁵

16. Ymatebodd y Gweinidog ar 28 Mehefin 2024¹⁶ ac ymhellach ar 9 Gorffennaf 2024.¹⁷

Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog ymateb i'r casgliadau a'r argymhellion a wnawn yn yr adroddiad hwn o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn y ddadl ar egwyddorion cyffredinol Cyfnod 1.

¹⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024

¹⁵ Llythyr at y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 18 Mehefin 2024

¹⁶ Llythyr gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 28 Mehefin 2024

¹⁷ Llythyr gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 9 Gorffennaf 2024

2. Cymhwysedd deddfwriaethol

Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon y byddai'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd

Cyffredinol

17. Gwnaethom ystyried y Bil o dan fodel cadw pwerau cymhwysedd deddfwriaethol, fel y'i nodir yn adran 108A o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006).

18. Mae'r Gweinidog yn nodi'r canlynol yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Yn fy marn i, byddai darpariaethau Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru), a gyflwynwyd gennyf i ar 20 Mai 2024, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru."*¹⁸

19. Nododd y Gweinidog ymhellach:

*"Mae gan Senedd Cymru ("y Senedd") y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau ym Mil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) ("y Bil") yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017."*¹⁹

20. Yn ei datganiad ar gymhwysedd deddfwriaethol, dywedodd y Llywydd, y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS:

"Yn fy marn i:

- Byddai'r rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru), a gyflwynwyd ar 20 Mai 2024, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.*
- Ni fyddai paragraff 4 o Atodlen 2 i'r Bil, sy'n diwygio Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, o fewn cymhwysedd. Mae hyn oherwydd bod angen cydsyniad Llywodraeth y DU er mwyn iddo fod o fewn cymhwysedd y Senedd, ac ni*

¹⁸ Memorandwm Esboniadol, Datganiad yr Aelod, tudalen 1

¹⁹ Memorandwm Esboniadol, tudalen 4

*chafwyd y cydsyniad angenrheidiol hwnnw ar hyn o bryd.*²⁰

21. Pan roddodd y Gweinidog dystiolaeth i ni ar 17 Mehefin 2024, cadarnhaodd ei bod yn fodlon bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, yn amodol ar gydsyniad Gweinidog y Goron.²¹

22. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog am ddiweddariad ar gydsyniad Gweinidog y Goron, ac ymatebodd fel a ganlyn:

*“In terms of the Minister of the Crown consents, there is a consequential amendment for which Minister of the Crown consent is required, and the Government has requested this from the Secretary of State.”*²²

23. Ychwanegwyd y canlynol gan swyddog a oedd yng nghwmni'r Gweinidog:

*“It has not been received, but we have had official-to-official confirmation that there is no argument in principle about it, because it puts our health bodies in the same position as analogous bodies in England.”*²³

Hawliau dynol

24. Ysgrifennodd y Llywydd atom ac at y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 10 Mehefin 2024,²⁴ gan fanylu ar yr ystyriaethau hawliau dynol y gallai'r Pwyllgorau craffu ddymuno eu hystyried.

25. Nododd y Llywydd yn ei llythyr:

“Er mai fy nghasgliad cyffredinol yw bod y darpariaethau yn y Bil yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, fy marn i yw bod y sefyllfa mewn perthynas â darpariaethau penodol yn y fantol, gyda dadleuon cryf o blaid ac yn erbyn cydnawsedd.”

26. Awgrymodd y Llywydd yn ei llythyr y dylid “rhoi ystyriaeth benodol i Erthygl 8 ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf i'r ECHR”, gan nodi nad yw'r Memorandwm

²⁰ Datganiad y Llywydd ar Gymhwysedd Deddfwriaethol, 20 Mai 2024

²¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [8]

²² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [10]

²³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [11]

²⁴ Llythyr gan y Llywydd, 10 Mehefin 2024

Esboniadol i'r Bil yn cyfeirio o gwbl at farn Llywodraeth Cymru ar effaith bosibl y Bil ar hawliau dynol.

27. Pan ymddangosodd y Gweinidog ger ein bron ar 17 Mehefin 2024, dywedodd wrthym, o ran materion hawliau dynol, bod cydbwysedd teg wedi'i sicrhau, o safbwynt cymesuredd, rhwng effeithiau hawliau dynol y nodau sy'n sail i'r Bil a darpariaethau perthnasol y Bil.²⁵

28. Gwnaethom ofyn iddi am yr effaith y mae'r Bil yn ei chael ar hawliau sy'n cael eu diogelu o dan Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, sy'n amddiffyn yr hawl i fywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth ac, yn benodol, sut yr oedd hi wedi dod i'r casgliad bod y Bil yn gyson â hawliau o'r fath i blant a theuluoedd.²⁶ Ymatebodd y Gweinidog gan ddweud:

"I think, if we look at article 8, the rights of looked-after children are protected in the Bill's transitional arrangements, which enable for-profit providers to continue to accommodate children in settled placements, and it also allows new placements to be made with for-profit providers, where that's the most appropriate place for a child to reside.

One of the reasons we've got to this point (...) is that the current market is so highly dysfunctional and, in the view of the Welsh Government, is unsustainable in its current form, and that dysfunction in the market has adverse affect on the service provisions in Wales. Consequently, the well-being and life outcomes of looked-after children in local authorities are adversely affected. The Welsh Government has concluded that, because of all of those points that I've made previously, the status quo is not an option.

What we do recognise is that a placement for a child who's looked after by a local authority is a child's home, and they may well be settled and they may have developed positive relationships and attachments to their carers. We also understand the importance of stability for their well-being and educational outcomes. So, where a child is settled and is having their needs met in a placement, then everything possible should be done to maintain that placement. The Bill's transitional arrangements and the provisions in the new section

²⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [8]

²⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [20]

*of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (...) ensure that local authorities can prioritise and stabilise this for children”.*²⁷

29. Ychwanegwyd y canlynol gan swyddog a oedd yng nghwmni'r Gweinidog:

*“Just touching specifically on new section 81A, which will be inserted by the Bill into the 2014 Act, we see that as being crucial to ensuring that local authorities will prioritise stability for children. It should do this by requiring local authorities, when making placement decisions, to meet their duty to safeguard and promote the well-being of the child, which is defined in a holistic manner in section 2 of the 2014 Act, and also by ensuring that the local authority must have regard to whether the child will be disrupted by moving to another placement. We think that covers considerations of best interest and some very specific considerations around disruption and avoiding that, for reasons the Minister’s articulated.”*²⁸

30. O ran Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf i'r ECHR (“E1P1”) sy'n ymwneud â'r hawl i fwynhau meddiannau, mae'r Bil yn defnyddio hawl darparwyr gwasanaethau nid-er-elw i wneud elw (mae elw presennol yn “feddiant” at ddiben E1P1). Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i'r effaith y mae'r Bil yn ei chael o ran yr hawliau penodol hynny.²⁹ Ymatebodd y Gweinidog gan ddweud:

“What we’ve had to do is to carefully consider the impact of the Bill’s provisions both on providers and on looked-after children. We dealt with the issue of looked-after children in the answer to your previous question. We do acknowledge absolutely that what is being proposed engages the property rights of for-profit providers of children’s homes and fostering services. There are currently no registered for-profit providers of secure accommodation in Wales, so it doesn’t impact on them. The convention doesn’t protect future property rights, so there would be no impact on any future for-profit providers in the secure sector.

The Welsh Government considers that any interference with the rights of the provider is proportionate, again for all the reasons I

²⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [21 i 23]

²⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [25]

²⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [26]

set out in terms of what we believe the aims of the Bill are, and that the Bill is a vitally important one to achieve a more sustainable children's social care sector and to ensure that social services improve life outcomes for children looked after by local authorities in Wales. So, what we've sought to do is to try to strike that careful balance between the needs of looked-after children in terms of social services and the proportionate impact that that would have on for-profit providers that currently provide services in the sector. The impact on providers and the need to allow time for business adjustments will be made within the Bill, and they will be able to continue to operate in Wales within a period of time that meets the transitional arrangements.

(...) I'm conscious that this is quite a complex legal area. (...) I am more than happy to write to the committee with a more detailed explanation, if that would be helpful, because I'm also conscious that we're going to be tied for time today as well.”³⁰

31. Gwnaethom ofyn a oedd y Gweinidog wedi ystyried y potensial ar gyfer heriau sy'n deillio o'r sector er elw lle y gellid dadlau y dylid pennu terfyn elw uchaf yn hytrach nag eithrio darparwyr er elw rhag darparu gwasanaethau.³¹ Ymatebodd y Gweinidog gan ddweud:

“It was certainly one of the considerations when we looked at what the alternatives to the current system would be, but there was no fair way that we could identify a minimum or a maximum level of profit. It's either for profit or it's not, because you then move into very grey areas. That's why we've written into the Bill the necessity of the transitional arrangements and recognition of contractual arrangements and the recognition of not disrupting children that are in for-profit placements while we go through the transition period. But we're setting out very clearly what it is we're seeking to achieve. We've set out very clearly the alternative models of delivery that will be not-for-profit and we're continuing to talk to the sector, for-profit providers that are operating in the sector, about how they can best adapt to these transitional arrangements and be part of that transitional process, because a number of these providers

³⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [27 i 29]

³¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [31]

*are very good providers. We wouldn't want to lose their expertise, but what we don't want to see is the continuation of the for-profit provision within the sector.*³²

32. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog a oedd unrhyw beth pellach yn y Bil yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i nodi a allai gael effaith ar hawliau dynol ac a oedd unrhyw gamau eraill wedi'u cymryd i sicrhau bod y Bil yn gyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.³³ Ymatebodd y Gweinidog gan ddweud:

*“... we're satisfied that we've looked at the requirements of the convention. We've undertaken integrated impact assessments and those impacts are identified in chapter 9 of the explanatory memorandum. The human rights implications of the provisions of the Bill have also been fully and carefully considered, and we will be publishing a summary of those integrated impact assessments shortly.”*³⁴

33. Yn dilyn ymddangosiad y Gweinidog ger ein bron ar 17 Mehefin 2024, gwnaethom ysgrifennu ati ar 18 Mehefin gyda nifer o ymholiadau ychwanegol. Cyfeiriasom hefyd at ei hymrwymiad i ddarparu asesiad Llywodraeth Cymru o effaith y Bil ar blant a'u teuluoedd, gan gyfeirio'n benodol at Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a'r effaith ar ddarparwyr gwasanaethau, gan gyfeirio'n benodol at E1P1.³⁵

34. Yn ei llythyr dyddiedig 28 Mehefin 2024, darparodd y Gweinidog nodyn ar ystyriaeth Llywodraeth Cymru o hawliau o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol mewn perthynas â Phennod 1 o Ran 1 o'r Bil. Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi “ystyried yn ofalus effaith darpariaethau'r Bil ar fusnesau darparwyr ac ar blant sy'n derbyn gofal”, sydd wedi cynnwys ystyriaeth fanwl o E1P1 (yr hawl i fwynhau meddiannau), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth), ac Erthygl 14 (amddiffyniad rhag gwahaniaethu wrth fwynhau Hawliau'r Confensiwn).³⁶

35. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud:

“Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd yr hyn sy'n cael ei gynnig yn ymyrryd â hawliau eiddo darparwyr gwasanaethau cartrefi plant er elw a darparwyr gwasanaethau maethu er elw.

³² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [32]

³³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [33]

³⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [34]

³⁵ Llythyr at y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 18 Mehefin 2024

³⁶ Llythyr gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 28 Mehefin 2024

Mae'n bosibl y gallai ymwneud ag Erthygl 8 os yw darparwr yn dod â lleoliad plentyn i ben. Fodd bynnag, mae darpariaethau trosiannol y Bil yn galluogi darparwyr er elw sydd eisoes yn darparu gwasanaeth i blentyn barhau i weithredu er mwyn peidio ag amharu ar ei leoliad presennol. Hyd yn oed os oes ymyrraeth â hawliau Erthygl 8, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai cyfiawnhad dros hynny ac y byddai'n gymesur am yr un rhesymau ag o dan EIP1 (...).

Gan nad oes darparwyr gwasanaethau llety diogel cofrestredig er elw ar hyn o bryd yng Nghymru, mae unrhyw effaith ar y gwasanaethau hyn yn effaith bosibl yn sgil sefydlu'r mathau hyn o wasanaethau yn y dyfodol. Mae felly y tu hwnt i gwmpas Hawliau'r Confensiwn nad ydynt yn diogelu'r hawl i feddiannau yn y dyfodol.”³⁷

36. Ysgrifennodd y Gweinidog hefyd:

“Mae nod darpariaethau'r Bil yn un hanfodol bwysig, sef cyflawni sector gofal cymdeithasol plant sy'n fwy cynaliadwy a sicrhau gwell gwasanaethau a chanlyniadau bywyd i blant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Y nod yw sicrhau nad yw arian cyhoeddus a fuddsoddir mewn gofal i blant sy'n derbyn gofal yn creu elw i unigolion neu endidau corfforaethol, ond ei fod, yn hytrach, yn cael ei wario ar wasanaethau plant i ddarparu gwell profiadau a chanlyniadau i blant a phobl ifanc. Y nod yw dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal er mwyn datblygu gwasanaethau sydd wedi'u lleoli'n lleol, wedi'u cynllunio'n lleol, yn atebol yn lleol ac sy'n gwella profiadau pobl ifanc o ofal.

Mae'r darpariaethau wedi'u cynllunio'n ofalus i sicrhau cydbwysedd teg rhwng yr angen i gyflawni'r nodau pwysig hyn ar y naill law ac (a) osgoi tarfu ar fywydau plant sy'n derbyn gofal a (b) rheoli'r effaith ar ddarparwyr, a'r angen i ganiatáu amser ar gyfer yr addasiadau busnes y bydd yn rhaid iddynt eu gwneud.

(...)

³⁷ Llythyr gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 28 Mehefin 2024

Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu, er bod y potensial ar gyfer elw yn cael effaith o ran denu cyfalaf preifat a mentrau preifat i'r maes, fod gallu darparwyr er elw i dynnu elw allan o'r system yn peryglu cynaliadwyedd y sector gofal cymdeithasol plant ac yn cael effaith andwyol ar ganlyniadau plant.”³⁸

37. Tynnodd y Gweinidog sylw hefyd at lenyddiaeth academiaidd am effaith tynnu elw ar ofal preswyl a maeth i blant.³⁹

38. Ychwanegodd y Gweinidog:

“Er gwaethaf yr effaith ar hawliau darparwyr er elw, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod darpariaethau'r Bil yn gymesur yn eu heffaith gyffredinol. (...)

Mae darpariaethau'r Bil yn darparu ar gyfer cyfnod pontio er mwyn osgoi tarfu ar blant sydd eisoes wedi'u lleoli gyda darparwyr na fydd yn gymwys mwyach i ddarparu'r gwasanaeth(au). Bydd hefyd yn caniatáu i awdurdodau lleol ddefnyddio'r capasiti sydd ar gael yn y sector hwnnw yn ystod y cyfnod wrth iddynt sicrhau digon o leoliadau eu hunain a chyda darparwyr nid-er-elw.

Yn ystod y cyfnod pontio hwn, gall awdurdodau lleol yng Nghymru wneud cais i Weinidogion Cymru gymeradwyo lleoli plentyn gyda darparwr er elw nad yw'n bodloni'r gofynion newydd, yn ddarostyngedig i amodau a mesurau diogelu penodol. Mae hyn yn sicrhau y caiff hawliau plant eu diogelu a bod yr effaith ar y dewis o leoliadau yn gyfyngedig wrth i'r sector drosglwyddo i'r model gofal newydd. Mae hefyd yn rhoi amser i ddarparwyr er elw drosi i fodel busnes nid-er-elw cymwys neu wneud addasiadau busnes eraill.”⁴⁰

39. Rydym yn trafod yr amserlen weithredu ymhellach ym Mhennod 3 o'r adroddiad hwn.

³⁸ Llythyr gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 28 Mehefin 2024

³⁹ Llythyr gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 28 Mehefin 2024

⁴⁰ Llythyr gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 28 Mehefin 2024

Asesiadau effaith

40. Mae Pennod 9 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi manylion cyfres o asesiadau effaith neu brosesau sgrinio sydd wedi'u cwblhau ar y Bil gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i Hasesiad Effaith Integredig.

41. Gwnaethom ofyn a oedd y broses sgrinio cyfiawnder y cyfeirir ati yn y Memorandwm Esboniadol yn asesiad o'r effaith ar gyfiawnder.⁴¹ Dywedodd swyddog a oedd yng nghwmni'r Gweinidog:

"So, what we've undertaken there is part of an internal process we have, which we've referred to as a justice screening tool. The official title is a justice system impact identification. So, it's a part of the justice impact assessment, probably the first stage, as you might say. It's essentially a checklist to identify further areas of assessment in order to guide officials through the various aspects of impact that need consideration. So, that's what that is.

We've been through it. We think there is going to be a very limited impact on the justice system as a result of our provisions, and we discuss that in the explanatory memorandum per the requirement in Standing Orders. But, as we're going through scrutiny, we're obviously going to keep that assessment under review and come back to it if we think any changes suggest that there's going to be a greater impact on the justice system."⁴²

42. Gwnaethom ofyn a oedd Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r ddeddfwriaeth o ganlyniad i'r broses a gynhaliwyd eisoes.⁴³ Atebodd swyddog a oedd yng nghwmni'r Gweinidog:

"At the moment (...) I don't think we've identified any changes that we feel are needed at this stage."⁴⁴

43. Mewn perthynas â diogelu data, mae'r Gweinidog yn datgan yn y Memorandwm Esboniadol fod asesiad o'r effaith ar ddiogelu data yn cael ei

⁴¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [36]

⁴² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [38 i 39]

⁴³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [40]

⁴⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [41]

baratoi. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog a fyddai'r asesiad effaith hwnnw'n cael ei rannu er mwyn craffu arno.⁴⁵ Ymatebodd y Gweinidog gan ddweud:

*"Yes, absolutely. We'll publish a summary of all the impacts. We're continuing to have discussions as well with the Information Commissioner's Office because it is a complex area, as you say, but we will publish a summary of the impacts when those assessments have been completed."*⁴⁶

44. Pan wnaethom ofyn pam na wnaethpwyd hynny cyn y cyflwyniad, dywedodd swyddog a oedd yng nghwmni'r Gweinidog wrthym:

*"So, within the explanatory memorandum, we were specifically discussing the provisions regarding restricting of profit, elimination of profit. We did undertake some consideration and identification of impacts that we were giving further consideration to. Where we are or where we were up to the point of introduction was we had to look again at the data impact assessment because we were developing some additional proposals around the approvals process for supplementary placements, and also for the sufficiency plans. So, essentially, what we have been doing in the recent weeks is just going back to our assessment of the data protection implications of the Bill in order to update it to align with those extra areas. And as the Minister said, we'll bring a summary of the codified impact assessment back to the committee and publish it as well."*⁴⁷

45. Pan awgrymwyd iddi y dylai'r materion hyn fod wedi'u cwblhau'n llawn cyn cyflwyno'r Bil i'r Senedd, ymatebodd y Gweinidog:

"... that would be the ideal scenario, absolutely, but I think (...) this was something that came up in the development of the policy, and it is very specific around the local authorities making supplementary placements, and that was something that came up as we were actually developing the policy. (...) we will make sure that that information is with you as quickly as

⁴⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [45]

⁴⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [46]

⁴⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [49]

*possible, and that it will be in time for the completion of the Stage 1 scrutiny.*⁴⁸

46. Ar 30 Awst 2024, hysbysodd y Gweinidog y Pwyllgor ei bod wedi cyhoeddi crynodebau o'r Aseidiadau Effaith Integredig a gynhaliwyd.⁴⁹

Ein barn ni

47. Nodwn y dystiolaeth gan y Gweinidog mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol.

48. Nodwn hefyd ddatganiad y Llywydd y byddai'r rhan fwyaf o'r darpariaethau yn y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn ei barn hi, ond na fyddai paragraff 4 o Atodlen 2 i'r Bil o fewn cymhwysedd y Senedd oherwydd bod angen cydsyniad Llywodraeth y DU i ddod ag ef o fewn ei gymhwysedd. Nodwn nad yw'r cydsyniad angenrheidiol hwn wedi'i gael eto.

Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog roi diweddariad i'r Senedd am drafodaethau Llywodraeth Cymru gyda Llywodraeth y DU ynghylch y cydsyniad gan Weinidog y Goron sy'n dal i fod heb ei dderbyn ac sy'n ofynnol ar gyfer paragraff 4 o Atodlen 2 i'r Bil.

49. Nodwn llythyr y Llywydd dyddiedig 10 Mehefin 2024, sy'n ymdrin yn fanwl ag ystyriaethau hawliau dynol, ac yn cydnabod ei barn, mewn perthynas â chydawnsedd y Bil â'r ECHR, "bod y sefyllfa mewn perthynas â darpariaethau penodol yn y fantol, gyda dadleuon cryf o blaid ac yn erbyn cydnawsedd".⁵⁰

50. Nid ydym o'r farn ei bod yn foddhaol na wnaeth y Gweinidog gynnwys manylion am farn Llywodraeth Cymru ar effaith bosibl y Bil ar hawliau dynol yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil.

51. Nodwn dystiolaeth a ddarparwyd i ni wedi hynny gan y Gweinidog mewn perthynas ag ystyriaeth Llywodraeth Cymru o hawliau o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn ei hymddangosiad ger ein bron ar 17 Mehefin 2024 a'i llythyr dyddiedig 28 Mehefin 2024.

52. Nodwn hefyd y dystiolaeth gan y Gweinidog ynghylch yr aseidiadau effaith a baratowyd gan Lywodraeth Cymru ar y Bil, yn benodol mewn perthynas â chyfiawnder a diogelu data.

⁴⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [51]

⁴⁹ Llythyr gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 30 Awst 2024

⁵⁰ Llythyr gan y Llywydd, 10 Mehefin 2024

- 53.** O ran effaith bosibl y Bil ar y system gyfiawnder, nodwn y sylwadau gan y Gweinidog a'i swyddogion fod proses sgrinio cyfiawnder wedi'i chwblhau ond mai dim ond rhan o asesiad llawn o'r effaith ar gyfiawnder yw hyn.
- 54.** Nodwn ymhellach y sylwadau y bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r sgrinio ac yn dychwelyd ato os yw o'r farn bod unrhyw newidiadau yn awgrymu y bydd mwy o effaith ar y system gyfiawnder.
- 55.** Nodwn hefyd o dystiolaeth y Gweinidog nad oedd asesiad o'r effaith ar ddiogelu data wedi'i baratoi eto ar adeg ein sesiwn dystiolaeth.
- 56.** Rydym yn cydnabod bod asesiad effaith integredig ac asesiad o'r effeithiau ar hawliau plant wedi'u cyhoeddi ar 29 Awst 2024.
- 57.** Nid ydym o'r farn ei bod yn foddhaol nac yn briodol yng nghyd-destun proses ddeddfwriaethol y Senedd fod manylion llawn a chadarn am effaith y Bil ar faterion allweddol gan gynnwys hawliau dynol, y system gyfiawnder a diogelu data naill ai heb eu paratoi na'u cyhoeddi mewn pryd ar gyfer ystyriaeth y Senedd o'r Bil yng Nghyfnod 1. Mae peidio â bod â'r wybodaeth hon ar gael ar adeg cyflwyno'r Bil yn naturiol yn atal craffu arno yn ystod Cyfnod 1 pan fydd Aelodau o'r Senedd yn ystyried anghenraid ac egwyddorion cyffredinol y ddeddfwriaeth arfaethedig. Yn ogystal â difreinio Aelodau o'r Senedd, mae hefyd yn difreinio rhanddeiliaid sy'n dymuno cyfrannu a gwneud sylwadau ar y Bil a'i effaith bosibl, a hefyd i awgrymu sut y gellid ei wella.
- 58.** Yn ein barn ni, byddai'n ymddangos yn briodol y dylai'r gwaith o ddatblygu'r cynigion deddfwriaethol gael ei lywio gan ganlyniadau asesiadau effaith ac, yn unol â hynny, y dylai'r gwaith o'u paratoi gael ei gwblhau cyn cyflwyno Bil. Dylid ystyried hyn fel arfer safonol, yn hytrach na "senario ddelfrydol".
- Casgliad 1.** Fel mater o egwyddor, ni ddylid cyflwyno Bil i'r Senedd hyd nes y bydd pob asesiad effaith perthnasol wedi'i gwblhau yn llawn, fel y gellir cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol yn y Memorandwm Esboniadol sy'n ofynnol i gyd-fynd â phob Bil yn unol â Rheol Sefydlog 26.6.
- 59.** Nodir un o'r gofynion y mae'n rhaid ei fodloni er mwyn i Fil fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn adran 108A(2)(e) o Ddeddf 2006. Mae'n mynnu bod holl ddarpariaethau Bil yn cydymffurfio â'r ECHR.
- 60.** Wrth ystyried Biliau eraill Llywodraeth Cymru yn y Chweched Senedd, rydym yn aml wedi dod i'r casgliad, fel mater o arfer da, y dylai Memorandwm

Esboniadol gynnwys sylwadau ar yr ystyriaeth a roddwyd i oblygiadau hawliau dynol Bil.⁵¹ Rydym yn ailadrodd y pwynt hwn eto.

Casgliad 2. Fel mater o arfer da, dylai Memorandwm Esboniadol ddarparu gwybodaeth glir am asesiad Llywodraeth Cymru o effaith bosibl Bil ar hawliau dynol ac, yn unol â hynny, sut y mae'n gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

⁵¹ Er enghraifft, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [Adroddiad ar Fil yr Amgylchedd \(Ansawdd Aer a Seinweddau\) \(Cymru\), Gorffennaf 2023](#), Casgliad 1 a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [Adroddiad ar y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig \(Cymru\)](#), Ionawr 2024, Casgliad 1

3. Sylwadau cyffredinol

Datblygu'r Bil a'r angen amdano

Ymgynghoriad

61. Rhwng mis Awst a mis Tachwedd 2022, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus⁵² ar ei chynigion polisi, y mae rhai ohonynt bellach yn cael eu hadlewyrchu mewn darpariaethau yn y Bil.

62. Yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Gweinidog yn nodi bod y ddogfen ymgynghori "yn nodi'r cyd-destun a'r rhesymeg dros bob newid arfaethedig; yn esbonio pam y mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cyflwyno neu ddiwygio'r gyfraith yn y meysydd hyn, a beth y bwriedir i hyn ei gyflawni; cyn gofyn am farn am y cynigion a'u heffeithiau tebygol."⁵³ Yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Gweinidog yn ychwanegu'r canlynol:

"Roedd yr ymgynghoriad yn ymdrin â'r prif feysydd a ganlyn:

- *Dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal*
- *Cyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus;*
- *Estyn y gofyniad o ran hysbysu am blant ac oedolion sy'n wynebu risg.*
- *Diwygio rheoleiddio darparwyr gwasanaethau, unigolion cyfrifol a'r gweithlu gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys estyn y diffiniad o weithiwr gofal cymdeithasol i gynnwys gweithwyr gofal plant a chwarae.*

(...)

Ni ymgynghorwyd ar unrhyw un o'r diwygiadau amrywiol i Ddeddf 2014..."⁵⁴

63. Ni wnaeth Llywodraeth Cymru ymgynghori ar Fil drafft. Yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Gweinidog yn nodi'r canlynol:

⁵² Ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru – [Newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth ar ofal cymdeithasol a gofal iechyd parhaus](#)

⁵³ Memorandwm Esboniadol, paragraff 4.1

⁵⁴ Memorandwm Esboniadol, paragraffau 4.2 a 4.11

“Ni chafwyd ymgynghoriad ffurfiol ar Fil drafft. Bernid ei bod yn fwy priodol ymgynghori ar gynigion polisi wrth iddynt gael eu datblygu er mwyn sicrhau y gellid ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad wrth ddatblygu'r Bil ei hun. Mae'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Bil yn cyd-fynd â'r bwriadau polisi a nodir yn yr ymgynghoriad, ond maent wedi ystyried pwyntiau a godwyd mewn ymatebion i'r ymgynghoriad. Bu ymgysylltiad parhaus penodol a rhagweithiol â rhanddeiliaid perthnasol wrth ddatblygu'r Bil.”⁵⁵

64. Pan roddodd y Gweinidog dystiolaeth i ni ar 17 Mehefin 2024, gwnaethom ofyn iddi egluro pam na wnaeth Llywodraeth Cymru ymgynghori ar Fil drafft. Cadarnhaodd y Gweinidog:

“What we consulted on was the policy development, and what we considered was that, actually, having the policy development consulted on was more important than, if you like, consulting on the draft Bill, because it's the policy development that informed the drafting of the Bill. So, there's nothing in the Bill that we haven't consulted on.”⁵⁶

65. O ran datblygu polisi a'r cynigion yn y Bil, gwnaethom hefyd ofyn i'r Gweinidog pa drafodaethau y mae hi wedi'u cael gyda gweinyddiaethau eraill y DU. O ran y darpariaethau yn Rhan 1 o'r Bil, dywedodd y Gweinidog wrthym fod swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gydag Adran Addysg Llywodraeth y DU i drafod cynigion Llywodraeth Cymru i ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal, a bod y trafodaethau hyn yn cynnwys unrhyw oblygiadau ar leoliadau trawsffiniol yn sgil y ddeddfwriaeth arfaethedig. Ychwanegodd y Gweinidog:

“A face-to-face meeting with the Director-General of the Department for Education was held in January 2024 and it was noted that the UK department is looking at profiteering in the sector and is concerned about rising costs and the increase in out-of-county provision.”⁵⁷

66. Mewn perthynas â Rhan 2 o'r Bil, dywedodd y Gweinidog fod swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd am GIP gyda chymheiriaid polisi o Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU ac, yn

⁵⁵ Memorandwm Esboniadol, paragraff 4.10

⁵⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT 60

⁵⁷ Llythyr gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 9 Gorffennaf 2024, ymateb i gwestiwn 1

fwy diweddar, eu bod wedi cynnal cyfarfodydd gyda swyddogion o Weithrediaeth Gogledd Iwerddon. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod gwybodaeth a thystiolaeth a rannwyd â swyddogion Llywodraeth Cymru o ganlyniad i'r trafodaethau hyn wedi cyfrannu at ddatblygiad yr Aseiad Effaith Integredig a'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer yr elfen hon o'r Bil.⁵⁸

Yr angen am ddeddfwriaeth newydd

67. O ran y darpariaethau yn Rhan 1 o'r Bil, mae'r Gweinidog yn nodi yn y Memorandwm Esboniadol fod y twf yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru "wedi arwain at duedd hirdymor o gynyddu'r defnydd o ofal, ynghyd ag anghenion mwy cymhleth, ac wedi cyflwyno heriau sylweddol i awdurdodau lleol ac wedi cael effaith ar blant a phobl ifanc eu hunain."⁵⁹

68. Mae'r Gweinidog yn dyfynnu yn y Memorandwm Esboniadol adroddiad 2021 gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) a fu'n edrych ar y farchnad gofal cymdeithasol plant ledled Cymru, Lloegr a'r Alban.⁶⁰ Mae'r Gweinidog yn tynnu sylw at y ffaith bod adroddiad y CMA "yn dangos bod lefel yr elw sy'n cael ei dynnu allan o'r gwasanaethau hyn mewn rhai ardaloedd yn fwy nag 20% ar gyfer gofal preswyl plant ac yn agos at yr un lefel ym maes maethu annibynnol." Ychwanegodd y Gweinidog "Arian sy'n cael ei dynnu allan o wasanaethau plant yw hwn a allai gael ei ailgyfeirio i wella gwasanaethau, capasiti a chanlyniadau."⁶¹

69. Aeth y Gweinidog ymlaen i gadarnhau:

"Mae Gweinidogion Cymru yn cytuno â barn y CMA nad yw'r farchnad gofal cymdeithasol plant yn gweithio'n dda. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cymhelliant elw yn un o'r rhesymau allweddol pam nad yw'r farchnad yn gweithredu'n iawn a bod effaith hynny ar y farchnad yn golygu nad yw'n addas ar gyfer sicrhau gofal sy'n diwallu anghenion plant a phobl ifanc agored i niwed."⁶²

⁵⁸ Llythyr gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 9 Gorffennaf 2024, ymateb i gwestiwn 1

⁵⁹ Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.14

⁶⁰ Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, Ymchwil a dadansoddi, [Adroddiad terfynol astudiaeth marchnad ar ofal cymdeithasol plant](#), Mawrth 2022

⁶¹ Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.16

⁶² Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.18

70. Mae'r Gweinidog yn nodi'r canlynol yn y Memorandwm Esboniadol:

"Nid yw Llywodraeth Cymru yn credu y dylid cael marchnad ar gyfer gofal i blant, nac y dylid gwneud elw o ofalu am blant sy'n wynebu heriau penodol yn eu bywydau ac mae'n cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon i roi terfyn ar hyn. Mae hyn yn golygu y bydd y gofal preswyl, llety diogel a gofal maeth i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn y dyfodol yn cael ei ddarparu gan sefydliadau'r sector cyhoeddus, sefydliadau elusennol neu sefydliadau nid-er-elw.

Nid cael gwared ar ddarparwyr er elw a chyflwyno trefn arall debyg yn ei lle yw ein nod. Yn hytrach, rydym am ailgydbwyso siâp a graddfa'r ddarpariaeth, gan gynnwys modelau gofal, cymorth cofleidiol a modelau perchnogaeth, fel rhan o'n gweledigaeth ehangach ar gyfer gwasanaethau plant i sicrhau eu bod yn seiliedig ar anghenion, yn integredig, yn lleol ac yn fforddiadwy.

(...)

Bydd y darpariaethau dileu elw o fewn y Bil yn cyfyngu ar wneud elw wrth ddarparu gwasanaethau cartrefi gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant., gwasanaethau llety diogel, a gwasanaethau maethu (y cyfeirir atynt fel 'gwasanaethau plant o dan gyfyngiad) drwy ddiwygio Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014."⁶³

71. O ran y darpariaethau yn Rhan 2 o'r Bil, mae'r Gweinidog yn nodi yn y Memorandwm Esboniadol fod y Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys yr ymrwymiad i wella'r rhyngwyneb rhwng gofal iechyd parhaus a thaliadau uniongyrchol.⁶⁴

72. Er mwyn cyflawni'r gwelliannau a mynd i'r afael â materion hysbys, mae'r Gweinidog yn datgan yn y Memorandwm Esboniadol:

"... bwriedir diwygio [Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006] i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud taliadau uniongyrchol i gleifion unigol. Bydd hyn yn eu galluogi i

⁶³ Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.2 a 3.240

⁶⁴ Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.43

sicrhau gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion asesedig ar gyfer gofal iechyd yn lle derbyn gwasanaethau a ddarperir neu a gomisiynir gan y GIG yng Nghymru.

Bwriad y polisi yw defnyddio'r pŵer hwn i alluogi taliadau uniongyrchol i gael eu gwneud i bobl sydd wedi cael eu hasesu fel rhai y mae ganddynt angen iechyd sylfaenol ac sydd â'r hawl felly i gael GIP.

Mae'r galw am newid polisi yn y maes hwn wedi bod yn cynyddu er mwyn mynd i'r afael â phryderon am annhegwch a diffyg llais a rheolaeth a wynebir gan bobl anabl a phobl ddifrifol wael. Ar hyn o bryd mae Byrddau Iechyd Lleol yn comisiynu cyfran sylweddol o'r rhan fwyaf o becynnau GIP gan ddarparwyr cartrefi gofal ac asiantaethau gofal cartref y sector preifat, a all, yn eu tro, brynu neu gomisiynu gofal iechyd megis nyrsio. Byddai cyflwyno taliadau uniongyrchol, felly, yn gwella llais a rheolaeth i unigolion drwy ganiatáu mwy o ddewis iddynt o ran sut, a chan bwy, y darperir eu gofal. Ar hyn o bryd nid oes gan unigolion lawer o reolaeth dros y ffordd y mae eu gofal yn cael ei ddarparu o dan GIP.”⁶⁵

73. Pan roddodd y Gweinidog dystiolaeth i ni ar 17 Mehefin 2024, gwnaethom ofyn iddi gadarnhau'r hyn y byddai'r Bil yn galluogi Llywodraeth Cymru i'w gyflawni na ellid ei gyflawni o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

“So, restricting the extraction of profit from social care services provided to children—we do need primary legislation to do that. We're also placing new duties on local authorities to prepare sufficiency plans, and those duties can't be created under the existing statutory framework. And in relation to the plans to introduce direct payments for continuing healthcare, which is in Part 2 of the Bill, there are currently no powers to allow direct payments for healthcare, so the Bill needs those powers.”⁶⁶

Yr arddulliau drafftio a'r dewisiadau a fabwysiadwyd yn y Bil

74. Mae'r Bil yn diwygio *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* (“Deddf 2014”) a *Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)*

⁶⁵ Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.52 i 3.54

⁶⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [63]

2016 (“Deddf 2016”) yn helaeth. Gwnaethom ofyn i’r Gweinidog pam nad ystyriwyd ei bod yn briodol gwneud hwn yn Fil annibynnol. Dywedodd swyddog a oedd yng nghwmni’r Gweinidog wrthym:

“As the question indicates, the key reference points for the two bits of legislation are these two pre-existing Acts, the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 and the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016, and even if a separate piece of legislation had been drafted to try and be self-contained, there would have been a need for people reading the law to understand how those two pre-existing Acts would have been affected in the sense that there would need to be some amendment to them to make them make sense. So, given that they are the pre-existing primary reference points for those two areas of law, the most logical thing was to make amendments to those two central points.”⁶⁷

75. Yn dilyn yr ymateb hwnnw, gwnaethom nodi, pe bai’r Bil hwn yn cael ei basio, y byddai tri darn sylweddol o ddeddfwriaeth yn rheoli’r maes hwn o gyfraith wedi’u pasio yng Nghymru o fewn degawd, ac felly y bydd efallai ofyniad i gydgrynhoi’r gyfraith hon ar ryw adeg.⁶⁸ Gwnaethom ofyn i’r Gweinidog a yw cydgrynhoi yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei ystyried. Dywedodd y Gweinidog nad yw cydgrynhoi yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wneud ar hyn o bryd gan fod ei phwyslais ar gyflwyno’r darn newydd hwn o ddeddfwriaeth sylfaenol. Ychwanegodd:

“But, I think, as with any legislation where there is overlap, (...) , that’s always something that Government has to keep an eye on in terms of whether that would be an effective way forward. So, we’ve got the two Acts—2014 and 2016—and now this one. There are some overlaps, but there are some very distinct differences as well. But I absolutely take your point that they are covering similar areas of policy, and that’s something that the Government would have to keep a watch on.”⁶⁹

76. Gwnaethom hefyd ofyn i’r Gweinidog pam y bu angen ailddatgan y gyfraith bresennol mewn rhai manau yn y Bil. Dywedodd swyddog a oedd yng

⁶⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [79]

⁶⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [81]

⁶⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [83]

nghwmni'r Gweinidog fod yr ailddatganiadau wedi'u gwneud am resymau'n ymwneud â hygyrchedd y gyfraith. Dywedodd wrthym:

"In particular, the amendments that were made to what is currently section 81 of the Social Services and Well-being Act are now divided up into three sections—81A, 81B, 81C—with the amending provisions in it, and 81C, effectively, restates some of the law. There are elements of 81A that are restatements of the law, but the division into three sections is simply because, if it had been left as a single section, it would have been extremely lengthy and cumbersome. It's easier to break it down into smaller units. So, that's more a drafting choice for accessibility of law rather than anything of any underlying policy rationale. I think that more or less answers that.

There's a certain amount of restatement in the direct payment provision as well, but that is, again, to improve the accessibility of the law. The same provision exists, in effect, but it's done by modification, which is a cumbersome way of creating a legal effect, and is more difficult for the reader to do. So, again, there's a sound reason for that, drawn from accessibility of law."⁷⁰

77. O ran strwythur y Bil, dywedasom wrth y Gweinidog ein bod wedi sylwi ar y canlynol, sef er bod Pennod 1 o Ran 1 yn ogystal â Rhan 2 o'r Bil ill dau yn dechrau gydag adran drosolwg, bod gan bob adran ym Mhennod 2 o Ran 1 o'r Ddeddf ei darpariaeth drosolwg ei hun fel ei his-adran gyntaf. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog esbonio'r gwahaniaeth yn y drafftio. Dywedodd swyddog a oedd yng nghwmni'r Gweinidog wrthym fod y gwahaniaeth yn cael ei ysgogi gan wahaniaeth bach yn natur y rhannau neu'r penodau dan sylw. Ychwanegodd:

"So, Part 1, Chapter 1 of the Bill, and also Part 2, deal with distinct policies, or topics, themes, if you will. So, the one deals with eliminating profit as a whole entity, and the other one deals with direct payments for continuing healthcare as a whole entity. So, in that case, it was sensible to describe them than as an entity, whereas, with Part 1, Chapter 2, those are very much miscellaneous amendments to the two Acts, in order to address specific issues, as I say, mainly around regulation, inspection and the way that the regulators operate, and,

⁷⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [93 i 97]

therefore, it didn't seem to need an overview description in the same way, because, essentially, the overview would have been, 'This section makes a series of miscellaneous amendments'. So, that's the reason for that drafting choice."⁷¹

78. Gwnaethom hefyd ofyn rhai cwestiynau i'r Gweinidog am y defnydd o dermau penodol yn y Bil.

79. Drwy'r Bil, defnyddir y termau 'rhagnodi' a 'rhagnodi mewn rheoliadau'. Er mwyn cael eglurder ynghylch a oedd y termau wedi'u defnyddio mewn modd cyson a hygyrch, gwnaethom ofyn am gadarnhad a mwy o fanylion am y defnydd o'r termau hyn. Dywedodd swyddog a oedd yng nghwmni'r Gweinidog:

"... essentially, the rationale behind this is that where these words—'prescribed' and 'prescribed by regulations'—are inserted into other legislation by the Bill, the style used follows the style of the legislation into which those words are inserted. So, whichever is inserted into the 2014 Act follows and makes sense in the context of that Act, and vice versa for the 2016. So, essentially, we had a choice between either an inconsistent approach in relation to this Bill, or creating inconsistency within the Acts being amended, and the judgment made that it was preferable for those Acts to be internally consistent to themselves."⁷²

80. Yn olaf, gwnaethom ofyn i'r Gweinidog pam mae hi wedi penderfynu cyfeirio at ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal yn y dogfennau esboniadol amrywiol i'r Bil, yn hytrach na chyfeirio at y ffaith bod y Bil yn gwneud darpariaeth i gyfyngu ar wneud elw. Dywedodd y Gweinidog:

"The provisions are not intended to prevent a fostering service business or a children's home business from generating a trading surplus from their operation. In that sense, the Bill does not prevent providers of these services making a profit. However, the provisions of the Bill are intended to ensure that any trading surplus or profit is retained within the business to be re-invested in either growing the business or in improving the quality of the services which the business provides. The provisions of the Bill are intended to prevent a provider from extracting profit from the business in the way shareholders of a

⁷¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [97]

⁷² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [87]

limited company, for example, are commonly rewarded. This is the sense in which the Bill is said to eliminate private profit from services providing care for looked after children.”⁷³

Pwerau dirprwyedig a’r cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a’r hyn sydd i’w gynnwys mewn Is-ddeddfwriaeth

81. Mae’r Bil yn cynnwys 21 o bwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru ac un pŵer i wneud cyfarwyddiadau. Ceir crynodeb o’r pwerau hyn yn nhablau 5.1 a 5.2 o’r Memorandwm Esboniadol.

82. Bydd 16 o bwerau dirprwyedig yn ddarostyngedig i’r weithdrefn negyddol, bydd tri phŵer yn ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, a bydd tri yn ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol ddrafft ar y defnydd cyntaf ac yna’n ddarostyngedig i’r weithdrefn negyddol.

83. Fel y nodwyd ym Mhennod 1 yr adroddiad hwn, cyhoeddodd y Gweinidog Ddatganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth i’w gwneud o dan y Bil ar 19 Mehefin 2024.⁷⁴ O ystyried bod ein sesiwn dystiolaeth a drefnwyd gyda’r Gweinidog yn cael ei chynnal ar 17 Mehefin, roedd ar gael i’r Pwyllgor yn Saesneg yn unig ar ddiwedd yr wythnos yn dechrau ar 10 Mehefin 2024.⁷⁵

84. Dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod yn fodlon ei bod wedi taro’r cydbwysedd cywir rhwng pa fanylion a oedd ar wyneb y Bil a’r hyn a fyddai’n cael ei adael i Weinidogion Cymru ei benderfynu mewn is-ddeddfwriaeth. Dywedodd:

“The Welsh Government’s starting point is always that we should put as much as possible on the face of the Bill, and this Bill certainly does include a significant amount of detail on the face of the legislation. Where there are powers to make subordinate legislation, those powers are also aligned with the existing statutory frameworks and procedures into which they’re being incorporated, and many of the new powers mirror existing powers, as is outlined in chapter 5 of the explanatory memorandum.”⁷⁶

⁷³ Llythyr gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 9 Gorffennaf 2024, ymateb i gwestiwn 2

⁷⁴ Llywodraeth Cymru, Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, 19 Mehefin 2024

⁷⁵ Gweler papurau cyfarfod Pwyllgor y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol, 17 Mehefin 2024

⁷⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [102]

85. Nododd y Gweinidog hefyd:

“... we have put an awful lot on the face of this Bill, and we’ve been very clear about the policy objectives, and very clear about the need for certain flexibilities in terms of why certain things are not on the face of the Bill.”⁷⁷

Cychwyn, trefniadau trosiannol a gweithredu arfaethedig

86. O dan adran newydd 2A(1) o Ddeddf 2016 (i’w mewnosod gan adran 2(b) o’r Bil), “gwasanaeth plant o dan gyfyngiad” yw:

- gwasanaeth cartref gofal a ddarperir mewn man y mae’r gwasanaeth yn cael ei ddarparu’n gyfan gwbl neu’n bennaf i blant ynddo;
- gwasanaeth maethu,
- gwasanaeth llety diogel.

87. O dan adran newydd 6A o Ddeddf 2016 (i’w mewnosod gan adran 3(3) o’r Bil), er mwyn cael ei gofrestru mewn cysylltiad â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad, rhaid i berson nad yw’n awdurdod lleol fod yn endid nid-er-elw .

88. Yn y Memorandwm Esboniadol, mae’r Gweinidog yn datgan:

“Er mwyn tarfu cyn lleied ag y bo modd ar fywydau plant mewn lleoliadau gofal preswyl a maeth presennol, bydd trefniadau trosiannol yn caniatáu i ddarparwr er elw cofrestredig o wasanaeth plant o dan gyfyngiad (darparwr etifeddol) barhau i weithredu ar ôl i’r darpariaethau ddod i rym, yn ddarostyngedig i amodau a osodir drwy reoliadau. Bydd gan Weinidogion Cymru bŵer, a arferir drwy reoliadau, i ddod â chofrestru darparwyr etifeddol i ben ar adeg briodol.”⁷⁸

89. Mae adran 4 o’r Bil yn mewnosod Atodlen newydd 1A yn Neddf 2016 i wneud darpariaeth ynghylch y trefniadau trosiannol mewn perthynas â darparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad sydd eisoes wedi’u cofrestru cyn i adran newydd 6A o Ddeddf 2016 ddod i rym.

90. Ar ôl i adran newydd 6A gychwyn, bydd y gofyniad mewn perthynas â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad a osodir o dan yr adran honno (i fod yn endid

⁷⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [104]

⁷⁸ Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.36

nid-er-elw) yn berthnasol i bob aelod newydd o'r gofrestr a gedwir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf 2016 a phob darparwr gwasanaeth presennol cyhyd ag y byddant yn parhau i fod yn gofrestredig.

91. Fodd bynnag, mae paragraffau 1 a 2 o Atodlen newydd 1A yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfnod trosiannol pan nad yw darparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad, a oedd wedi'u cofrestru mewn cysylltiad â'r gwasanaeth cyn iddo ddod yn wasanaeth plant o dan gyfyngiad (yn rhinwedd adran newydd 6A yn dod i rym), yn ddarostyngedig i'r gofynion yn adran newydd 6A(1) ac eithrio:

- at ddibenion unrhyw geisiadau y mae'r darparwr gwasanaeth yn eu gwneud o dan adran 6 o Ddeddf 2016 i gofrestru mewn perthynas â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad, neu
- o dan adran 11 o Ddeddf 2016 i amrywio ei gofrestriad i ychwanegu gwasanaeth plant o dan gyfyngiad neu i ddarparu gwasanaeth plant o dan gyfyngiad mewn man newydd neu mewn perthynas â man newydd.

92. Mae'r cyfnod trosiannol yn dechrau pan ddaw adran newydd 6A i rym mewn perthynas â'r gwasanaeth ac yn dod i ben ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau (i'w gwneud o dan baragraff 1 o Atodlen newydd 1A).

93. O ran Rhan 1 o'r Bil, mae'r Gweinidog yn datgan yn y Memorandwm Esboniadol:

“Y bwriad yw dod â darpariaethau perthnasol y Bil i rym fel y bydd:

- *Rhaid i ddarparwyr Newydd sy'n cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru⁷⁹ fod â statws nid-er-elw o 1 Ebrill 2026 ymlaen.*
- *Darparwyr “er-elw” presennol yn ddarostyngedig i ddarpariaethau trosiannol (i'w nodi mewn rheoliadau) o 1 Ebrill 2027 ymlaen. Bydd y darpariaethau trosiannol yn atal darparwyr o'r fath rhag cofrestru cartrefi newydd neu gymeradwyo gofalwyr maeth newydd. Bydd y darpariaethau hefyd yn golygu na fyddant yn cael lletya plant newydd, ac eithrio gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru, a geisiwyd gan yr awdurdod lleol.*

⁷⁹ Arolygiaeth Gofal Cymru

Pan fo'r awdurdod lleoli yn awdurdod lleoli yn Lloegr, dim ond o dan amgylchiadau rhagnodedig y bydd darparwyr yn gallu derbyn lleoliadau.”⁸⁰

94. Hefyd yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Gweinidog yn datgan mai'r bwriad yw i'r darpariaethau yn Rhan 2 o'r Bil gael eu rhoi ar waith yn ystod gwanwyn 2026.⁸¹

95. O ran y cyfyngiad ar wneud elw ar gyfer gwasanaethau plant o dan gyfyngiad, gwnaethom awgrymu i'r Gweinidog nad yw'r amserlenni ar gyfer cyflawni hyn yn glir.

96. Mae Atodlen newydd 1A i Ddeddf 2016 yn darparu bod y cyfnod trosiannol yn dechrau gyda'r diwrnod y daw adran 6A(1) o Ddeddf 2016 i rym. Gwnaethom dynnu sylw'r Gweinidog at y ffaith y bydd adran 6A(1) yn dod i rym ar 1 Ebrill 2026, yn ôl paragraff 3.42 o'r Memorandwm Esboniadol. Nodwyd gennym hefyd fod paragraff 3.42 hefyd yn datgan y bydd darparwyr 'er elw' presennol yn ddarostyngedig i ddarpariaethau trosiannol o 1 Ebrill 2027. O'r herwydd, gwnaethom ofyn i'r Gweinidog am eglurhad ynghylch y dyddiadau. Ymatebodd y Gweinidog gan ddweud:

“Bwriad y polisi yw sicrhau y bydd adrannau 3 a 4 o'r Bil yn dod i rym ym mis Ebrill 2026 gan fewnosod adran newydd 6A yn Neddff Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ynghyd â'r drefn drosiannol a nodir yn Atodlen newydd 1A. Effaith adran newydd 6A fydd atal unrhyw gyrff newydd rhag cofrestru fel darparwyr gwasanaethau plant cyfyngedig oni bai eu bod yn endidau nid-er-elw, sy'n cydymffurfio â'r prawf yn yr adran honno. Fodd bynnag, o dan Atodlen 1A, bydd cyrff presennol er elw (nad ydynt yn cydymffurfio â'r prawf yn adran 6A) yn gallu parhau i weithredu er nad ydynt yn bodloni'r prawf nid-er-elw yn rhinwedd y drefn drosiannol (er na fyddant yn gallu amrywio eu cofrestrriad i ddarparu gwasanaethau plant cyfyngedig newydd na'u darparu mewn mannau newydd).

Bydd adrannau 10, 11 a 12 o'r Bil hefyd yn dod i rym ym mis Ebrill 2026, gan wneud diwygiadau i adran 75 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a mewnosod adrannau newydd 75A i 75D. Bydd awdurdodau lleol Cymru yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd i gymryd pob

⁸⁰ Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.42

⁸¹ Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.60

cam rhesymol i sicrhau bod ganddynt ddigon o leoliadau eu hunain neu gyda darparwyr nid-er-elw. Bydd yn rhaid iddynt baratoi eu cynllun digonolrwydd blynyddol cyntaf a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo bedwar mis cyn dechrau blwyddyn ariannol 2027-28.

Bydd adran 13 o'r Bil, sy'n mewnosod adrannau newydd 81A i 81D yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn cael ei chychwyn ym mis Ebrill 2027, gan ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol Cymru geisio awdurdodiad gan Weinidogion Cymru ar gyfer pob lleoliad parhaus i blant sydd â darparwyr er elw. O fis Ebrill 2027 ymlaen, os na all awdurdod lleol yng Nghymru ganfod lleoliad nid-er-elw ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal, a'i fod yn dymuno lleoli plentyn gan ddefnyddio'r lleoliadau sydd ar gael gyda darparwyr er elw yng Nghymru, bydd angen iddo geisio cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru.

Yn weithredol o fis Ebrill 2027 ymlaen, bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau o dan baragraff 3 o Atodlen newydd 1A (fel y'i mewnosodwyd gan adran 4 o'r Bil, gweler uchod), a fydd yn atal unrhyw ddarparwyr er elw sy'n weddill yng Nghymru (y rhai sy'n dal i weithredu o dan y ddarpariaeth drosiannol ym mharagraff 2 o'r Atodlen honno) rhag cymryd lleoliadau o awdurdodau lleol yn Lloegr ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig. Ar hyn o bryd, bydd rheoliadau hefyd yn cael eu gwneud o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i ddarparu na fydd darparwyr gwasanaethau maethu er elw yng Nghymru yn gallu cymeradwyo gofalwyr maeth newydd.”⁸²

97. Gwnaethom hefyd ofyn i'r Gweinidog a allai gadarnhau pryd yr oedd yn rhagweld gwneud rheoliadau i ddod â'r cyfnod trosiannol i ben. Gwnaethom hefyd ofyn pam nad yw dyddiad dod i ben y cyfnod trosiannol ar wyneb y Bil, gyda phŵer i'w ddiwygio os oes angen. Dywedodd swyddog a oedd yng nghwmni'r Gweinidog wrthym:

“... the reason for not specifying the end date for the transitional period is because part of the issue, which is being protected by the design of the scheme, is the article 8 rights of the children

⁸² Llythyr gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 9 Gorffennaf 2024, ymateb i gwestiwn 3

who are in placement and who are going to be potentially affected by the eventual disqualification of those providers who are for-profit providers and don't transition into the new arrangements. And setting a date on the face of the Bill would have been artificial. It wouldn't have allowed officials and Ministers to gauge the progress of the change in the sector as the provisions take effect, and would have set up instability and anxiety for those in placements who would potentially be affected because of an impending date coming up and their not knowing what might happen to them.”⁸³

98. Ychwanegodd y Gweinidog ei bod yn gwerthfawrogi'n llwyr yr angen am sicrwydd, a'i bod yn rhagweld y bydd yn gorfod rhoi cyfrif am hyn yn y Senedd a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r sector gofal cymdeithasol o'r nod, sut mae'n cael ei roi ar waith a'r amserlen ar gyfer mynd i'r afael â phob agwedd. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn bwysig bod Llywodraeth Cymru'n cadw'r hyblygrwydd hwnnw wrth amserlennu fel na fydd yn mynd i drafferthion ynghylch rhai o'r agweddau hawliau dynol.⁸⁴

99. Yn y Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, mae'r Gweinidog yn nodi bod y pŵer i ddod â'r cyfnod trosiannol i ben yn cydnabod y bydd angen ystyried y cynnydd a wneir i gael awdurdodau lleol i roi'r gorau i ddefnyddio lleoliadau er elw er mwyn pennu'r pwynt priodol ar gyfer dod â'r cyfnod trosiannol i ben.⁸⁵ Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog, os bydd un awdurdod lleol yn ei chael hi'n anodd rhoi'r gorau i ddefnyddio lleoliadau er elw, a yw hyn yn golygu y bydd y cyfnod trosiannol ledled Cymru yn parhau ar gyfer pob awdurdod lleol hyd nes y bydd pob un yn barod. Ymatebodd y Gweinidog gan ddweud:

“Mae paragraff 1(3) o Atodlen 1A yn ei gwneud yn glir bod adran 187 o Ddeddf 2016 yn gymwys i'r pŵer i wneud rheoliadau ym mharagraff 1(1). Mae adran 187(1)(b) yn sicrhau y gellir defnyddio pwerau gwneud rheoliadau o dan Ddeddf 2016 i wneud darpariaeth wahanol “at ddibenion gwahanol, ar gyfer achosion gwahanol ac ar gyfer ardaloedd gwahanol”. Yn y senario a ddisgrifir, byddai'n agored i Weinidogion Cymru ddod â'r cyfnod pontio i ben fesul cam, gan ganiatáu i awdurdodau lleol sydd â'r dasg o ddileu dibyniaeth ar

⁸³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [67]

⁸⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [71]. Gweler hefyd CyT [72 i 73]

⁸⁵ Llywodraeth Cymru, Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru), Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, 19 Mehefin 2024, tudalen 6

*ddarparwyr er elw gael mwy o amser, ond cyflwyno gweithredu llawn ar gyfer ardaloedd eraill yn gynt.*⁸⁶

100. Ceir rhagor o sylwadau ar adran 4 o'r Bil ym Mhennod 4.

101. Mae adran 24 o Ran 2 o'r Bil yn diwygio *Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006* (Deddf y GIG 2006) i fewnosod adran newydd 10B. Mae adran 10B(5) yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a fyddai'n galluogi Byrddau Iechyd Lleol (BILLau) i wneud taliadau uniongyrchol wrth gyflawni dyletswydd y BILLau i ddarparu gwasanaethau ôl-ofal o dan adran 117 o *Ddeddf Iechyd Meddwl 1983* (Deddf 1983).

102. Nid yw'n glir i ni a ellid arfer y pŵer i wneud rheoliadau yn adran newydd 10B(5) mewn perthynas ag un BILL yn unig yn y lle cyntaf. Dywedodd swyddog a oedd yng nghwmni'r Gweinidog wrthym:

*"Technically, yes, it could; it could be used in that way. However, it wouldn't be appropriate to do so, because if we were to use that power in that way, then people in different parts of Wales would be treated differentially. Had we wanted to pilot this, which commencing in relation to one area only would effectively be, we would have sought appropriate piloting provisions. That wasn't the Government's intention, so, therefore, the power in 10B(5) will be used to bring the provisions into force in relation to all local health boards at the same time."*⁸⁷

Ein barn ni

103. Rydym yn cydnabod tystiolaeth y Gweinidog ynghylch datblygiad y Bil, ac yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion polisi sydd bellach wedi'u hadlewyrchu mewn darpariaethau yn y Bil.

104. Bydd y Gweinidog yn ymwybodol o'n dewis hirsefydlog i'r llywodraeth ymgynghori ar ddeddfwriaeth ddrafft, yn hytrach nag ymgynghori ar gynigion polisi yn unig. Byddai ymgynghori ar Fil drafft wedi rhoi'r cyfle i randdeiliaid ac Aelodau o'r Senedd asesu sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu troi cynigion polisi a newidiadau yn ddarpariaeth ddeddfwriaethol. Yn ein barn ni, mae ymgynghori ar Fil drafft yr un mor bwysig ag ymgynghori ar y bwriadau polisi; maent yn cynrychioli cydrannau gwahanol ond pwysig o ddatblygu deddfwriaeth a dylid eu cynnwys yn amserlen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Dylai

⁸⁶ Llythyr gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 9 Gorffennaf 2024, ymateb i gwestiwn 8

⁸⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [122]

ymgyngori ar Fil drafft arwain at ddeddfwriaeth well, sydd wedi'i hystyried yn fwy llawn, a dylai hyn, yn ei dro, olygu y bydd hi'n fwy tebygol y bydd y canlyniadau polisi a ddeisyfir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cyflawni.

105. Rydym yn cydnabod esboniad y Gweinidog ynghylch yr hyn y byddai'r Bil yn galluogi Llywodraeth Cymru i'w gyflawni na ellid ei gyflawni o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol.

106. Rydym yn cydnabod ymhellach dystiolaeth y Gweinidog ynghylch pam y bu'n rhaid ailddatgan y gyfraith bresennol mewn rhai manau yn y Bil.

107. Un agwedd benodol ar ddrafftio'r Bil a amlygwyd gennym yn ein cwestiynau i'r Gweinidog oedd y defnydd o'r termau 'rhagnodi' a 'rhagnodi mewn/drwy reoliadau'. Rydym yn nodi'r dystiolaeth a gawsom fod gan Lywodraeth Cymru ddewis rhwng naill ai ymagwedd anghyson mewn perthynas â'r Bil, neu greu anghysondeb o fewn Deddfau 2014 a 2016 sy'n cael eu diwygio. Er ein bod yn cydnabod bod dadl ei bod yn well i'r Deddfau hynny barhau'n fewnol gyson â nhw eu hunain, mae hyn yn amlygu rheswm cadarn dros yr angen i ddod â phopeth ynghyd mewn ffordd gyson a chyfunol cyn gynted â phosibl.

108. Nodwn sylwadau gan y Gweinidog nad yw cydgrynhoi'r maes hwn o'r gyfraith yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wneud ar hyn o bryd oherwydd ei bod yn canolbwyntio ar ddod â'r darn newydd hwn o ddeddfwriaeth sylfaenol i rym.

109. Rydym yn derbyn y bydd diwygio'r gyfraith mewn unrhyw faes penodol yn fwy o flaenoriaeth na chydgrynhoi'r gyfraith bresennol. Serch hynny, ac fel enghraifft, mae'r gydnabyddiaeth gan y Gweinidog a'i swyddogion bod arddulliau drafftio yn y Bil hwn yn anghyson yn sgil anghysondeb rhwng Deddfau 2014 a 2016 yn dangos bod angen gwneud gwaith i asesu a nodi'r angen a manteision cydgrynhoi'r maes hwn o gyfraith Cymru.

Argymhelliad 3. Dylai'r Gweinidog gadarnhau a yw wedi cael trafodaethau gyda'r Cwnsler Cyffredinol a chabinet Llywodraeth Cymru ynghylch y flaenoriaeth y dylid ei rhoi i gydgrynhoi'r gyfraith ar reoleiddio a darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal iechyd yng Nghymru.

Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog ymrwymo i asesu a chwmpasu cydgrynhoi'r gyfraith ar reoleiddio a darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal iechyd yng Nghymru, ac adrodd i'r Senedd ar y gwaith hwn o fewn 12 mis i basio'r Bil.

110. Rydym yn cydnabod tystiolaeth y Gweinidog ynghylch y cydbwysedd rhwng y manylion ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys mewn is-ddeddfwriaeth.

Nodwn sylwadau'r Gweinidog, lle mae pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth, bod y pwerau hynny'n cyd-fynd â'r fframweithiau a'r gweithdrefnau statudol presennol y maent yn cael eu hymgorffori ynddynt. Rydym hefyd yn nodi sylwadau'r Gweinidog bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi llawer iawn ar wyneb y Bil hwn ac wedi bod yn glir iawn ynghylch yr angen am hyblygrwydd o ran pam nad yw rhai pethau ar wyneb y Bil .

111. Fel y Pwyllgor sy'n ystyried dirprwyo pwerau i Lywodraeth Cymru ym mhob Bil a gyflwynir i'r Senedd, rydym yn cydnabod bod edrych ar nifer y pwerau yn unig yn annigonol wrth bennu a yw Bil yn ceisio'n ormodol i ddirprwyo pŵer oddi wrth y ddeddfwrfa i'r weithrediaeth. Serch hynny, mae 21 o bwerau dirprwyedig mewn Bil o ddim ond 30 adran yn ffigurau trawiadol sy'n haeddu cael eu dwyn i sylw'r Senedd.

112. Fel y bydd holl Weinidogion Cymru yn ymwybodol, pan fo'r cydbwysedd pŵer deddfwriaethol yn gogwyddo gormod o blaid y weithrediaeth, bydd y Senedd a'r cyhoedd yng Nghymru yn cael eu rhwystro rhag cael dadl dreiddgar am yr hyn y mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol yn ceisio'i gyflawni. At hynny, mae'n amharu ar allu Aelodau o'r Senedd i graffu ar fanylion y ddeddfwriaeth a roddir ger eu bron.

113. Mae'n anffodus na sicrhawyd bod y Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth ar gael i ni ac i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ddechrau trafodion Cyfnod 1, yn unol â'r arfer. Fel y nodwyd gennym wrth y Gweinidog yn ystod ein sesiwn dystiolaeth, hanfod craffu da yw craffu gwybodus, ac mae cael gwybodaeth mor bwysig pan nad oes llawer o amser i'w darllen a'i chrynhoi yn annigonol ac ni ddylai hyn ddigwydd eto.

Casgliad 3. Mae gennym bryderon bod y Bil wedi'i gyflwyno'n rhy gynnar a chyn i'r holl waith paratoi angenrheidiol gael ei gwblhau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i, ymgynghori ar fersiwn ddrafft o'r Bil a pharatoi asesiadau effaith a'r Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth i'w gwneud o dan y Bil.

114. Wrth ddod i'r farn hon, rydym hefyd wedi ystyried sylwadau a wnaeth y Gweinidog mewn perthynas â darpariaethau unigol yn y Bil ac, yn benodol, yr angen i roi ystyriaeth bellach i'w drafftio. Ymdrinnir â'r materion hyn yn y bennod nesaf, ynghyd â dadansoddiad o'r pwerau dirprwyedig a gynhwysir yn y Bil.

115. Fel y nodwyd uchod, gwnaethom ofyn i'r Gweinidog pam mae hi wedi penderfynu cyfeirio at ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal yn y dogfennau esboniadol amrywiol i'r Bil, yn hytrach na chyfeirio at y ffaith bod y Bil yn gwneud darpariaeth i gyfyngu ar wneud elw.

116. Ar y mater hwn, nodwn sylwadau gan y Gweinidog mai bwriad darpariaethau'r Bil yw atal darparwr rhag gwneud elw o'r busnes ac mai dyma'r ystyr y dywedir bod y Bil yn dileu elw preifat o wasanaethau sy'n darparu gofal i blant sy'n derbyn gofal.

117. Serch hynny, rydym yn pryderu y gellid dadlau bod y deunydd esboniadol yn gamarweiniol gan nad yw'r Bil yn dileu gwneud elw yn y sector.

118. Yn ein barn ni, dylai geiriad y Bil ei hun a'r dogfennau esboniadol fod yn gyson â'i gilydd, a dylai'r geiriad a ddefnyddir adlewyrchu darpariaethau'r Bil yn gywir.

Argymhelliad 5. Dylai'r Gweinidog ddiwygio'r Memorandwm Esboniadol (gan gynnwys y Nodiadau Esboniadol) erbyn dechrau trafodion Cyfnod 3 i sicrhau ei fod yn adlewyrchu bwriad y Bil i gyfyngu ar wneud elw yn hytrach na dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal.

119. Yn olaf yn yr adran hon o'n hadroddiad, nodwn dystiolaeth y Gweinidog ynghylch y cynnig i gychwyn a gweithredu darpariaethau'r Bil, gan gynnwys y darpariaethau a wneir ar gyfer trefniadau trosiannol.

120. Nodwn mai'r bwriad yw y bydd yn ofynnol i ddarparwyr sy'n gwneud cais i gofrestru i ddarparu gwasanaeth plant o dan gyfyngiad fod yn ddarparwyr nid-er-elw o 1 Ebrill 2026. Bydd darparwyr presennol hefyd yn ddarostyngedig i'r trefniadau trosiannol o'r dyddiad hwnnw, er na fydd unrhyw gyfyngiadau sydd i'w gosod ar ddarparwyr o'r fath yn dod i rym tan 1 Ebrill 2027.

121. Fodd bynnag, yn ein barn ni, nid yw'r trefniadau trosiannol yn glir wrth ddarllen y Bil, y Memorandwm Esboniadol na'r Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth. Fel y nododd y Gweinidog yn glir yn ei thystiolaeth, mae'r trefniadau trosiannol yn bwysig gan mai eu bwriad, yn rhannol, yw amddiffyn hawliau plant sy'n derbyn gofal.

122. Er bod llythyr y Gweinidog dyddiedig 9 Gorffennaf 2024 yn fwy defnyddiol, rydym yn pryderu nad oes digon o eglurder ynghylch y trefniadau trosiannol a sut y bydd rhanddeiliaid yn cael eu heffeithio ganddynt. Os nad yw'r trefniadau trosiannol yn gwbl glir, mae perygl y gallai hyn gael effaith negyddol ar gyflawni amcanion polisi'r Gweinidog ac, yn benodol, y gofal i blant sy'n derbyn gofal.

123. Rydym hefyd yn pryderu nad oes unrhyw arwydd yn y Bil nac yn unrhyw un o'i ddogfennau esboniadol ynghylch pryd y bwriedir i'r trefniadau trosiannol ddod i ben. Ni chlywsom chwaith unrhyw dystiolaeth yn rhoi unrhyw awgrym i ni ar y pwynt hwn. Heb unrhyw ymrwymiad ynghylch pryd y bydd y trefniadau trosiannol

yn dod i ben, gallent barhau am gyfnod amhenodol a fyddai'n tanseilio effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth hon.

124. Nodwn sylwadau'r Gweinidog ynghylch y rhesymau dros beidio â bod o blaid rhoi dyddiad dod i ben ar gyfer y trefniadau trosiannol ar wyneb y Bil. Fodd bynnag, ein barn ni yw nad yw'r dadleuon a gyflwynwyd yn arbennig o glir na chryf.

125. Yn absenoldeb unrhyw awgrym sy'n nodi pryd y bydd y trefniadau trosiannol yn dod i ben, credwn y dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth hon ar wyneb y Bil. Rydym o'r farn y byddai hyn yn cynnig mwy o sicrwydd i bawb sy'n cael eu heffeithio gan y newidiadau i'w gwneud gan y Bil, ac yn rhoi targed iddynt weithio tuag ato o ran paratoi ar gyfer y newidiadau hynny. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y byddai angen rhywfaint o hyblygrwydd i newid y dyddiad dod i ben pe bai angen. Gellid gwneud hyn drwy gynnwys pŵer i wneud rheoliadau yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol. Yn ein barn ni, byddai hyn yn lliniaru'r pryderon a fynegwyd gan y Gweinidog ynghylch cael dyddiad dod i ben ar wyneb y Bil.

Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i gynnwys y dyddiad y bydd y trefniadau trosiannol sydd i'w cyflwyno o dan Ran 1 o'r Bil yn dod i ben, ac i sicrhau bod modd diwygio'r dyddiad hwnnw drwy reoliadau yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol drafft.

Argymhelliad 7. Pe bai'r Bil yn derbyn Cydsyniad Brenhinol, dylai'r Gweinidog sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu i'r holl randdeiliaid am y trefniadau trosiannol a fydd yn berthnasol o dan Ran 1 o'r Bil ar ffurf a fydd yn gwneud y trefniadau'n hawdd eu deall.

Argymhelliad 8. Dylai'r Gweinidog esbonio'n glir sut y byddai dod â'r trefniadau trosiannol i ben fesul cam o dan Ran 1 o'r Bil yn gweithio yn ymarferol, gan gynnwys sut yr effeithir ar hawliau plant os bydd rhaid iddynt symud lleoliad.

126. At hynny, ac o ran gweithredu Rhannau 1 a 2 o'r Bil, nodwn ei bod yn ymddangos bod gan Lywodraeth Cymru safbwyntiau gwahanol ynghylch priodoldeb gweithredu Rhannau 1 a 2 fesul cam ledled Cymru.

127. Mewn perthynas â Rhan 1 o'r Bil, yn ei llythyr atom ar 9 Gorffennaf 2024, awgrymodd y Gweinidog na fyddai gan Lywodraeth Cymru unrhyw bryderon ynghylch dod â'r cyfnod trosiannol i ben fesul cam ar draws awdurdodau lleol. Fodd bynnag, pan holwyd y Gweinidog ynghylch gweithrediad Rhan 2 o'r Bil, gan gydnabod y byddai'r pwerau yn y Bil yn galluogi darpariaethau'r taliadau uniongyrchol i ddod i rym mewn gwahanol Fyrddau Iechyd Lleol ar wahanol

adegau, dywedwyd wrthym na fyddai'n briodol gwneud hynny, oherwydd pe baent yn defnyddio'r pŵer hwnnw yn y ffordd honno, y byddai pobl mewn gwahanol rannau o Gymru yn cael eu trin yn wahanol.

128. Os yw Llywodraeth Cymru yn pryderu na ddylai pobl mewn rhannau o Gymru gael eu trin yn wahanol o ran cymhwysra i gael taliadau uniongyrchol o fewn GIP y GIG, nid ydym yn glir pam nad yw'r un pryderon yn berthnasol i blant agored i niwed yng Nghymru a allai dderbyn llety yn unol â safonau a gofynion gwahanol yn dibynnu ar yr ardal y darperir y gwasanaeth. Rhaid i safbwynt y Gweinidog ar hyn fod yn fwy clir a rhaid wrth esboniad pellach.

Argymhelliad 9. Dylai'r Gweinidog esbonio'n glir:

- pam ei bod yn briodol o bosibl trin awdurdodau lleol yn unigol ac felly'n wahanol mewn perthynas â Rhan 1 o'r Bil, ond nid mewn perthynas â Rhan 2;
- goblygiadau ymagwedd o'r fath i iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

4. Sylwadau penodol ar Rannau ac adrannau penodol o'r Bil

129. Yn y Bil ceir 30 o adrannau (mewn tair Rhan) a dwy Atodlen.

130. Mae'r sylwadau a ganlyn yn canolbwyntio ar adrannau penodol o'r Bil ac ar bwerau dirprwyedig o fewn yr adrannau hynny rydym yn dymuno tynnu sylw atynt ac, yn unol â hynny, tynnu sylw'r Senedd atynt.

Rhan 1 o'r Bil: Gofal cymdeithasol

131. Mae Rhan 1 o'r Bil yn ymwneud â gofal cymdeithasol ac mae'n cynnwys dwy Bennod.

132. Mae Pennod 1 yn gwneud diwygiadau i Ddeddfau 2014 a 2016 gyda'r bwriad o gyfyngu ar allu gwneud elw darparwyr gwasanaethau cartrefi gofal plant, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau maethu.

133. Mae Pennod 2 yn gwneud nifer o ddiwygiadau mewn perthynas â gwasanaethau gofal cymdeithasol, gweithwyr gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, gyda'r nod o sicrhau y gall Deddf 2014 a Deddf 2016 weithredu'n llawn ac yn effeithiol.

134. Mae Rhan 1 o'r Bil hefyd yn cyflwyno Atodlen 1 sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol bresennol.

Pennod 1: Darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant: cyfyngiadau ar elw

Adran 2 - Gwasanaethau plant o dan gyfyngiad

135. Mae adran 2(b) yn mewnosod adran newydd 2A i Ran 1 o Ddeddf 2016. Mae adran newydd 2A yn diffinio "gwasanaeth plant o dan gyfyngiad" at ddibenion Rhan 1 o Ddeddf 2016. Gwneir darpariaeth bellach ynghylch ei hystyr yn Atodlen 1 i Ddeddf 2016, o ganlyniad i adran 2(c) o'r Bil, sy'n mewnosod paragraffau newydd 1(3A) ac 1(3B) i'r Atodlen honno.

136. Mae adran newydd 2A(1) yn diffinio'r gwasanaethau rheoleiddiedig a ganlyn fel "gwasanaeth plant o dan gyfyngiad" at ddibenion Rhan 1 o Ddeddf 2016:

- gwasanaeth cartref gofal a ddarperir mewn man y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n gyfan gwbl neu'n bennaf i blant ynddo,
- gwasanaeth maethu,
- gwasanaeth llety diogel.

137. Mae adran newydd 2A(2) yn darparu'r hyn a ganlyn:

“mae gwasanaeth cartref gofal yn cael ei ddarparu'n gyfan gwbl neu'n bennaf i blant—

(a) os yw wedi darparu mwy o ddiwrnodau o lety i blant nag i oedolion am unrhyw gyfnod o 12 mis sy'n dod o fewn y 24 mis blaenorol, neu

(b) os yw'n bwriadu darparu mwy o ddiwrnodau o lety i blant nag i oedolion am unrhyw gyfnod o 12 mis sy'n dod o fewn y 24 mis dilynol.”

138. Nid yw'r Bil yn rhoi unrhyw fanylion am sut y caiff y meini prawf hyn eu dangos neu eu hasesu'n ymarferol. Nid yw chwaith yn nodi'n glir a oes rhaid i'r cyfnodau amser y cyfeirir atynt fod yn ddi-dor ai peidio h.y. os yw'n gyfnod o 12 mis o fewn y 24 mis blaenorol, a yw hyn yn golygu 12 mis di-dor neu unrhyw 12 mis unigol o fewn y 24 mis blaenorol? Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog a oedd ganddi unrhyw bryderon y gallai hyn arwain at ddryswch ynghylch beth yw gwasanaeth cartref gofal yn y cyd-destun hwn. Ymatebodd y Gweinidog gan ddweud:

“Bydd darparwyr yn gwybod a yw eu bwriad yn dod o fewn y trothwyon a nodir yn y Bil (h.y. sy'n gwneud lle a weithredir ganddynt fel cartref gofal yn lle sy'n gallu darparu gwasanaeth cartref gofal yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant). Bydd rhai achosion pan fydd y darparwr yn ceisio newid ei statws cofrestru oherwydd ei fod yn sicr y bydd yn cyrraedd y trothwy, a bydd achosion eraill pan fydd y darparwr yn ceisio newid ei statws cofrestru oherwydd ei fod yn cydnabod mai posibilrwydd yw croesi'r trothwy.

O ran cyfrifo nifer y diwrnodau, mae'r cyfrifiad yn dibynnu os yw'r darparwr wedi darparu, mewn man penodol, mwy o ddiwrnodau o lety i blant nag i oedolion dros gyfnod o 12 mis yn ystod y 24 mis diwethaf. Mae hyn yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i'r gwaith o gyfrifo diwrnodau ddigwydd o fewn cyfnod di-

dor o 12 mis. Ni fyddai'r ddarpariaeth yn gwneud synnwyr pe gallai'r dyddiau sy'n ffurfio'r cyfnod o 12 mis gael eu dewis ar hap o fewn y cyfnod o 24 mis. Fodd bynnag, byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i ddrafftio'r ddarpariaeth hon cyn Cam 2.

Wrth brofi cydymffurfiaeth â'r gofyniad, bydd y rheoleiddiwr yn gallu archwilio cofnodion mynediad darparwr er mwyn penderfynu a yw'r trothwy wedi'i groesi er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr gael ei gofrestru fel darparwr gwasanaeth cyfyngedig i blant.”⁸⁸

139. Mae'r Bil yn diffinio 'plant sy'n derbyn gofal' ym mharagraff newydd 1(3B) o Atodlen 1 i Ddeddf 2016 (i'w fewnosod gan adran 2(c) o'r Bil). Diffinnir y term hwn drwy gyfeirio at adran 74 o Ddeddf 2014. Fodd bynnag, nid yw adran 74 yn defnyddio'r term hwn. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog esbonio pam y mabwysiadwyd y dull hwn ac, wrth edrych yn ôl, a yw'n ystyried y gallai drafftio'r darpariaethau hyn fod yn fwy clir. Ymatebodd y Gweinidog gan ddweud:

“Mae “plant sy'n derbyn gofal” yn derm a ddefnyddir yn adran 2 o'r Bil sy'n mewnosod adran newydd 2A a pharagraffau newydd (3A) a (3B) yn Atodlen 1 i Ddeddf 2016. Diffinnir y term mewn paragraff newydd (3B) drwy gyfeirio at adran 74 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (“Deddf 2014”). Mae adran 74 Deddf 2014 yn diffinio'r term “plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol”. Y pennawd ar gyfer Rhan 6 o Ddeddf 2014 (ac adran 74 yw'r adran agoriadol) yw “Plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya”. Credwn fod y diffiniad yn weddol glir ond gellid ei egluro ymhellach a bwriadwn gyflwyno diwygiad yng Ngham 2 i fynd i'r afael â'r pwynt hwn.”⁸⁹

Ein barn ni

140. Rydym yn nodi'r dystiolaeth gan y Gweinidog ynghylch gwasanaeth cartref gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant, ac rydym yn cydnabod ei sylwadau ar y darpariaethau sy'n golygu, er mwyn dod o fewn y diffiniad, y bydd angen i ddarparwr ddangos ei fod yn bwriadu darparu mwy o ddiwrnodau o lety i blant nag i oedolion dros gyfnod penodol.

⁸⁸ Llythyr gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 9 Gorffennaf 2024, ymateb i gwestiwn 4

⁸⁹ Llythyr gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 9 Gorffennaf 2024, ymateb i gwestiwn 6

141. Fodd bynnag, rydym yn pryderu am ymateb y Gweinidog y bydd darparwyr yn gwybod ai eu bwriad yw dod o fewn y trothwyon a nodir yn y Bil. Nid ydym chwaith wedi'n hargyhoeddi bod barn y Gweinidog ar gyfrifo diwrnodau mor glir ag yr awgryma'r Gweinidog. Fel y cyfryw, rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i roi ystyriaeth bellach i ddrafftio'r ddarpariaeth hon cyn Cyfnod 2.

142. Credwn fod rhaid i adran newydd 2A(2) o Ddeddf 2016 ddatgan yn glir bod rhaid cyfrifo diwrnodau dros gyfnod di-dor o 12 mis.

Argymhelliad 10. Dylai'r Gweinidog gyflwyno diwygiad i'r Bil fel ei fod yn glir wrth gyfrifo nifer y diwrnodau at ddiben adran newydd 2A(2) o *Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016* (fel y'i mewnosodwyd gan adran 2(b) o'r Bil) bod rhaid i'r cyfnod o 12 mis fod yn ddi-dor.

143. Rydym hefyd yn pryderu am y ffordd mae'r term "plant sy'n derbyn gofal" wedi'i ddiffinio yn y Bil. Credwn fod risg o ddryswch gan fod "plant sy'n derbyn gofal" yn cael ei ddiffinio drwy gyfeirio at adran 74 o Ddeddf 2014. Fodd bynnag, nid yw Deddf 2014 mewn gwirionedd yn diffinio nac yn defnyddio'r term "plant sy'n derbyn gofal" mewn darpariaethau gweithredol. Fel y cyfryw, nid ydym o'r farn bod y dull gweithredu mor glir ag y gallai fod, ac ni fydd chwaith o gymorth i ddarllenwyr y ddeddfwriaeth.

144. Felly, rydym yn cytuno â barn y Gweinidog y gellid egluro ymhellach eiriad y Bil mewn perthynas â'r pwynt hwn ac rydym yn croesawu ei hymrwymiad i gyflwyno diwygiad priodol yng Nghyfnod 2.

Casgliad 4. Fel egwyddor gyffredinol, credwn y dylai deddfwriaeth ddiffinio'n glir y termau y mae'n eu defnyddio, yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol i'r darllenydd arfer rhywfaint o ddehongli, waeth pa mor syml yw'r dehongliad ym marn y Gweinidog dan sylw.

Argymhelliad 11. Dylai'r Gweinidog egluro pam y bydd y term "plant sy'n derbyn gofal" yn cael ei gyflwyno i *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* gan y Bil pan na ddefnyddir y term yn narpariaethau gweithredol y Ddeddf wreiddiol.

Argymhelliad 12. Os bydd y Gweinidog yn penderfynu parhau i ddefnyddio'r term "plant sy'n derbyn gofal", dylai'r Gweinidog gyflwyno diwygiad i'r Bil i egluro ei ystyr, gan gynnwys, os oes angen, drwy ddiffinio'r term ym mharagraff newydd 1(3B) o Atodlen 1 i'r Bil (fel y'i mewnosodwyd gan adran 2(c) o'r Bil).

Adran 3 - Ceisiadau i gofrestru mewn perthynas â gwasanaethau plant o dan gyfyngiad

145. Mae adran 3(3) yn mewnosod adrannau newydd 6A (Cofrestru mewn cysylltiad â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad) a 6B (Cofrestru mewn cysylltiad â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad: diffiniadau) yn Neddf 2016.

146. O dan adran newydd 6A(1), er mwyn cael ei gofrestru mewn perthynas â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad, rhaid i berson nad yw'n awdurdod lleol fod yn endid nid-er-elw.

147. Mae adrannau newydd 6A(2), (3) a (4) yn darparu bod "endid nid-er-elw" yn berson sy'n bodloni'r ddau amod a ganlyn:

- Amod 1: mae amcanion neu ddibenion y person yn ymwneud yn anad dim â lles plant, neu ag unrhyw fudd cyhoeddus arall a ragnodir gan Weinidogion Cymru (adran newydd 6A(3));
- Amod 2: mae'r person yn un o'r pedwar math canlynol o ymgymeriad (a ddiffinnir yn adran 6B, ac y mae'r gyfraith yn cyfyngu ar dynnu elw mewn perthynas â hwy): cwmni elusennol cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau; sefydliad elusennol corfforedig; cymdeithas gofrestredig elusennol; cwmni buddiant cymunedol cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau (adran newydd 6A(4)).

148. O ganlyniad i fewnosod adrannau 6A a 6B yn Neddf 2016, mae adran 3(2) yn mewnosod is-adran newydd (1A) yn adran 6 o Ddeddf 2016. Mae'r is-adran newydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n gwneud cais i gael ei gofrestru mewn perthynas â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad roi gwybodaeth ragnodedig i Weinidogion Cymru sy'n dangos bod y person yn endid nid-er-elw. Mae'r pŵer i ragnodi'r wybodaeth i'w arfer drwy reoliadau yn amodol ar y weithdrefn negyddol a wneir o dan adran 187 o Ddeddf 2016.

149. Gwnaethom holi'r Gweinidog am y defnydd o'r term 'budd cyhoeddus' a'r diffyg diffiniad ohono yn y Bil. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y term 'budd cyhoeddus', yn y Bil, yn ymwneud â lles plant, a bod y cyfrifoldeb yn un cyfunol yn hytrach na'i fod yn gyfrifoldeb i'r unigolyn.⁹⁰ Ychwanegwyd y canlynol gan swyddog a oedd yng nghwmni'r Gweinidog:

"... just to build on what the Minister said, the intention of including some ability through regulations to widen the range

⁹⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [106]

of purposes and objects that a qualifying not-for-profit entity might have is simply to allow a little more scope. If it proves, through time, that it's a disadvantage or an advantage [correction: If it proves, through time, that it's an advantage] to have a slightly wider range of not-for-profit entities engaged in this area whose objects might go beyond something that is simply captured by the words 'welfare of children', then that will give us scope to enable us to do that, if that's what time proves to be required."⁹¹

150. Er bod Amod 1 yn adran newydd 6A(3) yn cyfeirio at amcanion neu ddibenion person yn ymwneud yn anad dim â lles plant neu unrhyw fudd cyhoeddus arall, ni ddarperir unrhyw wybodaeth ynghylch sut y pennir yr amcanion neu'r dibenion. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog egluro'r rheswm dros hepgor y manylyn hwn. Ymatebodd fel a ganlyn:

"Bydd y dasg o benderfynu a yw amcanion neu ddibenion darparwr yn cydymffurfio â'r gofyniad yn adran 6A yn gyfrifoldeb i Weinidogion Cymru fel rheoleiddiwr gwasanaethau gofal cymdeithasol rheoleiddiedig o dan Ran 1 o Ddeddf 2016. Mae swyddogaethau Gweinidogion Cymru fel rheoleiddiwr yn cael eu cyflawni gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Nid oes unrhyw fanylion am hyn ar wyneb y Bil.

Swyddogaethau i'r rheoleiddiwr yw'r holl agweddau ar benderfynu ar geisiadau i gofrestru, gan gynnwys elfennau sy'n gofyn am ddefnyddio barn ynghylch a yw profion statudol yn cael eu bodloni. Enghreifftiau o'r rhain yw penderfyniadau ynghylch a yw ymgeisydd yn "berson addas a phriodol" ac a yw "unigolyn cyfrifol" yn "gymwys" ac yn "addas a phriodol".

Nid ydym yn credu bod angen cynnwys darpariaeth i nodi sut y bydd y rheoleiddiwr yn defnyddio'r prawf "nid-er-elw" newydd ar gyfer gwasanaethau plant o dan gyfyngiad. Credwn ei bod yn glir o'r cyd-destun y bydd dyfarniadau ynghylch cydnawsedd gwrthrychau neu ddibenion darparwr â'r prawf yn agwedd ychwanegol ar swyddogaeth y rheoleiddiwr o benderfynu ar geisiadau i gofrestru.

⁹¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [107]

Bydd hwn yn ddyfarniad a wneir ar sail dehongliad a dadansoddiad y rheoleiddiwr o gymalau amcanion y darparwr a'u profi i weld a ydynt yn gydnaws â'r amod nid-er-elw yn adran 6A(3).

*Fodd bynnag, gwelwn o'r cwestiwn a ofynnwyd nad oedd y drafftio wedi'i ddeall fel hyn ac y byddwn yn edrych eto ar hyn cyn Cam 2.*⁹²

151. Mae'r Bil yn diffinio 'cwmni a chanddo gyfalaf cyfrannau' yn adran newydd 6B(6) o Ddeddf 2016 (i'w mewnosod gan adran 3(3) o'r Bil) drwy gyfeirio at ddeddfwriaeth bresennol. Rhoddir ystyr penodol i'r term hwn yn y Bil, ond ni ddefnyddir yr ymadrodd yn y cyfryw ffurf yn y Bil. Gwnaethom ofyn eto i'r Gweinidog egluro pam y mabwysiadwyd y dull hwn ac a oedd hi, o ystyried hynny, o'r farn y gallai'r drafftio fod yn fwy clir. Ymatebodd y Gweinidog gan ddweud:

*"Credwn fod y drafftio "cwmni a chanddo gyfalaf cyfrannau" yn glir. Y rheswm pam y diffinnir yr ymadrodd hwn trwy gyfeirio at ddiffiniad Deddf Cwmnïau (yn adran newydd 6B(6)(b), a fewnosodir gan adran 3(3) o'r Bil) ond nad yw'n cael ei ddefnyddio air-am-air mewn manau eraill yn y Bil, yw er mwyn bod yn gryno a sicrhau rhwyddineb dealltwriaeth, defnyddir y geiriau "heb gyfalaf cyfrannau" yn y labeli yn adran newydd 6A(4)(a) a (d); mae adran newydd 6B(2)(b) a (5)(b) wedyn yn nodi bod "heb gyfalaf cyfrannau" yn golygu peidio â chael cyfalaf cyfrannau, ac mae adran 6B(6)(b) yn ei gwneud yn glir bod y cysyniad o gael cyfalaf cyfrannau neu beidio â chael cyfalaf cyfrannau i'w ddeall yn unol ag adran 545 o Ddeddf Cwmnïau 2006."*⁹³

Ein barn ni

152. O ran adran 3 o'r Bil, nodwn farn y Gweinidog am y defnydd o'r term 'budd cyhoeddus' yn adran 6(A)(3)(b) newydd a'r diffyg diffiniad ohono yn y Bil. Fodd bynnag, rydym yn pryderu nad yw'r Gweinidog wedi cydnabod yn ddigonol fod 'budd cyhoeddus' yn gysyniad sylfaenol i natur y darparwyr gwasanaethau sy'n dymuno cael eu cofrestru i ddarparu gwasanaethau plant o dan gyfyngiad.

153. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran newydd 6A(3)(b) o Ddeddf 2016 yn eithriadol o eang a gellid ei ddefnyddio i ehangu elfen allweddol o'r Bil. At hynny,

⁹² Llythyr gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 9 Gorffennaf 2024, ymateb i gwestiwn 5

⁹³ Llythyr gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 9 Gorffennaf 2024, ymateb i gwestiwn 6

bydd y pŵer hwn ar gael i Weinidogion Cymru pob llywodraeth yn y dyfodol. O ystyried ei bwysigrwydd, credwn y dylai'r Senedd arfer mwy o oruchwyliaeth ar arfer y pŵer hwn, a rhaid cael dyletswydd i ymgynghori â rhanddeiliaid ar reoliadau arfaethedig.

Argymhelliad 13. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i gynnwys diffiniad o 'fudd cyhoeddus' yn adran newydd 6A o *Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016* (i'w mewnosod gan adran 3(3) o'r Bil).

Argymhelliad 14. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddefnyddio'r weithdrefn uwchgadarnhaol ar gyfer rheoliadau a wneir o dan adran newydd 6A(3)(b) o *Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016* (i'w fewnosodwyd gan adran 3(3) o'r Bil).

154. Rydym yn croesawu sylwadau'r Gweinidog y bydd y ffordd y caiff amcanion neu ddibenion eu pennu yn cael eu hadolygu cyn Cyfnod 2. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, credwn y byddai'n fuddiol cynnwys, ar wyneb y Bil, darpariaeth ynghylch sut y pennir amcanion neu ddibenion, a chan bwy.

Argymhelliad 15. Dylai'r Gweinidog ystyried cyflwyno gwelliant i'r Bil i egluro sut y pennir amcanion neu ddibenion, a chan bwy, o dan adran newydd 6A(3) o *Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016* (i'w mewnosod gan adran 3(3) o'r Bil).

155. Mae'r Bil yn diffinio 'cwmni a chanddo gyfalaf cyfrannau' y rhoddir ystyr penodol iddo yn y Bil, ond nid yw'r ymadrodd yn cael ei ddefnyddio ar ffurf o'r fath yn y Bil. Nodwn sylwadau'r Gweinidog fod yr ymadrodd yn cael ei ddefnyddio er mwyn "bod yn gryno a sicrhau rhwyddineb dealltwriaeth". Fodd bynnag, yn unol â chasgliad 4 o'r adroddiad hwn, rydym yn haeru, er mwyn eglurder a hygyrchedd deddfwriaeth, mai dim ond pan ddefnyddir termau o'r fath yn y ffurf honno y dylid diffinio termau mewn deddfwriaeth. Nodwn mai tystiolaeth y Gweinidog ar y pwynt hwn oedd bod yr ymadrodd "heb gyfalaf cyfrannau" wedi'i ddefnyddio yn y Bil a bod hyn i'w ddeall wrth gyfeirio at y term 'cwmni a chanddo gyfalaf cyfrannau'. Fodd bynnag, nid ydym o'r farn bod y dull hwn yn rhoi eglurder i'r darllenydd. Credwn fod diffinio termau mewn deddfwriaeth sydd mewn gwirionedd yn seiliedig ar sicrwydd a manwl gywirdeb yn fwy hygyrch na cheisio bod yn gryno .

Argymhelliad 16. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 3 o'r Bil i ddileu'r diffiniad o 'gwmni a chanddo gyfalaf cyfrannau' sydd i'w fewnosod yn adran newydd 6B(6)(b) o *Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol*

(Cymru) 2016, a dylid rhoi diffiniad priodol yn ei le o ran yr ymadrodd 'heb gyfalaf cyfrannau'.

Adran 4 - Cofrestru mewn cysylltiad â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad: trefniadau trosiannol

156. Fel y nodwyd uchod ym Mhennod 3 o'r adroddiad, mae adran 4 yn mewnosod Atodlen newydd 1A yn Neddf 2016 i wneud darpariaeth ynghylch trefniadau trosiannol mewn perthynas â darparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad sydd eisoes wedi'u cofrestru cyn i'r gofynion 'nid-er-elw' newydd a gynhwysir yn adran newydd 6A o Ddeddf 2016 ddod i rym (i'w mewnosod gan adran 3(3) o'r Bil).

157. Mae paragraff 2(1)(a) o'r Atodlen newydd 1A i Ddeddf 2016 yn cyfeirio at wasanaeth sy'n cael ei 'ddarparu'n gyfan gwbl neu'n bennaf i blant'. Rhoddir ystyr penodol i'r ymadrodd hwn yn adran newydd 2A o Ddeddf 2016, i'w fewnosod gan adran 2(b) o'r Bil. Fodd bynnag, dim ond yn adran newydd 2A(1) y nodir bod yr ystyr hwn yn gymwys. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog a fwriedir i'r ymadrodd gael yr un ystyr ym mharagraff 2(1)(a) yn Atodlen 1A ag sydd ganddo yn adran 2A(1) ac, os felly, a oedd y Gweinidog o'r farn bod y drafftio'n adlewyrchu hyn. Gwnaethom nodi hefyd fod yr un mater yn berthnasol mewn perthynas ag adran 75(4) o Ddeddf 2014, fel y'i diwygiwyd gan adran 10(6) o'r Bil, sy'n defnyddio'r ymadrodd "yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant" ond nad yw'n cynnig unrhyw esboniad ynghylch sut y mae hynny i'w benderfynu. Ymatebodd y Gweinidog gan ddweud:

"Nodir y prawf ar gyfer penderfynu a ddarperir gwasanaeth yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant yn adran newydd 2A(2), ac mae'n sefydlu ystyr "cartref plant" fel ffurf "gwasanaeth plant o dan gyfyngiad" yn adran 2A(1). Nodir yn adran 2A(1) bod y diffiniad o "wasanaeth plant o dan gyfyngiad" at ddibenion Rhan 1 (o Ddeddf 2016). Atodiad 6 Er bod hyn yn ymestyn i Atodlen 1A a gyflwynir gan adran 6C, nid yw'r ymadrodd "yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant" yn ymwneud â defnyddio'r term "gwasanaeth plant o dan gyfyngiad" ym mharagraff 2(1)(a). Rydym yn cynnig cyflwyno diwygiad yng Ngham 2 i fynd i'r afael â'r pwynt hwn.

O ran y cyfeiriad at "yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant" yn adran 75(4) o Ddeddf 2014, mae'r diffiniad yn cyfarwyddo'r darllenydd i ddehongli'r ymadrodd "cartref plant" fel man y mae person wedi'i gofrestru o dan Ran 1 o Ddeddf 2016. Fodd bynnag, credwn y byddai mwy o eglurder yn cael ei ddarparu i'r

darllenydd pe bai hyn yn cael ei gyfeirio mewn ffordd fwy penodol a byddwn yn cyflwyno diwygiad yng Ngham 2 i fynd i'r afael â'r pwynt hwn.”⁹⁴

158. Mae paragraff 2(4)(b) o Atodlen newydd 1A yn mewnosod pŵer i wneud rheoliadau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i bennu deddfiadau nad yw paragraff newydd 2(3) o Atodlen 1A yn gymwys i'w dibenion. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog pam nad yw'r deddfiadau hyn wedi'u rhestru yn y Bil. At hynny, nodwyd gennym fod y Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth yn nodi bod y pwerau newydd ym mharagraff 2(4)(a) o Atodlen 1A yn caniatáu i Weinidogion Cymru nodi achosion eraill lle y dylid trin darparwr fel un nad yw'n bodloni'r gofyniad nid-er-elw, ac felly gwnaethom ofyn pa enghreifftiau a ragwelir yma. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

“Credwn mai'r unig amgylchiadau lle mae angen datgymhwyso effeithiau paragraff 2(3) yw mewn perthynas ag agweddau ar y drefn reoleiddio yn Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae angen datgymhwyso paragraff 2(3) mewn un amgylchiad ychwanegol, a hynny pan fo at ddibenion cais gan ddarparwr gwasanaeth o dan adran 11(1)(a)(ii). Byddwn yn adolygu'r angen am y pŵer i wneud rheoliadau ym mharagraff 2(4)(b) o Atodlen 1A cyn cam 2.”⁹⁵

Ein barn ni

159. Mewn perthynas ag Atodlen newydd 1A i Ddeddf 2016 sydd i'w mewnosod gan adran 4 o'r Bil, rydym yn cytuno â'r Gweinidog bod angen mwy o eglurder o ran y cyfeiriadau at 'yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant', ac rydym yn croesawu'r bwriad i gyflwyno mwy o eglurder ar ffurf gwelliant yng Nghyfnod 2. Yn yr un modd, rydym yn croesawu sylwadau'r Gweinidog mewn perthynas â geiriad tebyg sy'n ymddangos yn adran 10(6) o'r Bil.

Argymhelliad 17. Dylai'r Gweinidog ystyried cyflwyno gwelliant neu welliannau i sicrhau ei bod yn glir beth mae 'yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant' yn ei olygu ym mhob man y caiff ei ddefnyddio yn y Bil.

160. At hynny, er ein bod hefyd yn nodi ac yn croesawu bwriad y Gweinidog i adolygu'r angen am y pŵer i wneud rheoliadau ym mharagraff 2(4)(b) o Atodlen

⁹⁴ Llythyr gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 9 Gorffennaf 2024, ymateb i gwestiwn 7

⁹⁵ Llythyr gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 9 Gorffennaf 2024, ymateb i gwestiwn 9. Gweler hefyd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [115]

newydd 1A cyn Cyfnod 2, dylai Llywodraeth Cymru fod yn glir ynghylch yr angen am bwerau dirprwyedig cyn cyflwyno Bil i'r Senedd. O ystyried sylwadau'r Gweinidog, mae'n ymddangos bod y pŵer i wneud rheoliadau yn ddiangen ac, yn ein barn ni, dylid ei ddileu o'r Bil.

Argymhelliad 18. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddileu'r pŵer i wneud rheoliadau o baragraff 2(4)(b) o Atodlen newydd 1A (i'w mewnosod gan adran 4 o'r Bil).

Adran 6 - Person addas a phriodol: ystyriaethau perthnasol

161. Mae adran 6 o'r Bil yn diwygio Deddf 2016, gan gynnwys drwy fewnosod adrannau newydd 9A a 9B yn Neddf 2016 (o ganlyniad i adran 6(3)). Mae'r adrannau hyn yn nodi bod trefniadau ariannol afresymol neu anghymesur yr ymrwymir iddynt gan ddarparwr gwasanaeth sydd wedi'i gofrestru mewn perthynas â gwasanaeth plant o dan gyfyngiad yn dystiolaeth y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw iddi wrth bennu a yw'r darparwr yn berson addas a phriodol. Mae'r term 'buddiant sylweddol mewn corff corfforaethol' yn cael ystyr penodol yn adran newydd 9B(3)(d) o Ddeddf 2016, ond ni ddefnyddir yr ymadrodd yn y Bil. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

"Diffinnir "buddiant sylweddol mewn corff corfforaethol" yn adran newydd 9B(3)(d) o Ddeddf 2016 (a fewnosodir gan adran 6(3) o'r Bil). Mae adran newydd 9B(2)(e)(i) yn cyfeirio at "gorff corfforaethol ...[mae gan berson]...fuddiant sylweddol ynddo" ac mae adran 9B(2)(e)(ii) yn cyfeirio at "gorff corfforaethol ...[mae gan bersonau]...fuddiant sylweddol ynddo". Credwn yn y cyd-destun fod y berthynas rhwng y term a'r geiriad a ddefnyddir yn adrannau newydd 9B(2)(e)(i) a (ii) yn glir."⁹⁶

Ein barn ni

162. Mae'r Bil yn diffinio 'buddiant sylweddol mewn corff corfforaethol' y rhoddir ystyr penodol iddo yn y Bil, ond eto ni ddefnyddir yr ymadrodd yn y cyfryw ffurf yn y Bil. Yn unol â chasgliad 4 o'r adroddiad, rydym yn gwneud yr argymhelliad a ganlyn oherwydd ein bod o'r farn y dylai'r Bil ddiffinio'r termau y mae'n eu defnyddio mewn gwirionedd, yn hytrach na bod angen rhywfaint o ddehongliad.

⁹⁶ Llythyr gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 9 Gorffennaf 2024, ymateb i gwestiwn 6

Argymhelliad 19. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 6 o'r Bil i sicrhau bod y gwaith o ddrafftio adrannau newydd 9B(2)(e) a 9B(3)(d) yn cyd-fynd â chasgliad 4 o'n hadroddiad.

Adran 11 - Dyletswydd i lunio a chyhoeddi cynllun digonolrwydd blynyddol

163. Mae adran 11 o'r Bil yn diwygio Deddf 2014 i fewnosod adrannau newydd 75A, 75B a 75C sy'n ymwneud â dyletswydd gyffredinol awdurdod lleol i sicrhau llety digonol i blant sy'n derbyn gofal o dan adran 75 o'r Ddeddf honno.

164. Mae adran newydd 75A yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio a chyhoeddi cynllun digonolrwydd blynyddol cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Rhaid i'r cynllun fanylu ar y camau y bydd yr awdurdod lleol yn eu cymryd yn y flwyddyn honno i gyflawni ei ddyletswydd o dan adran 75(1) sydd newydd ei diwygio mewn perthynas â llety diogel o fewn ardal yr awdurdod lleol neu gerllaw iddi sy'n lleoliad nid-er-elw ac sy'n diwallu anghenion plant y cyfeirir atynt yn adran 75(2).

165. Mae adran 75A(2) yn nodi'r wybodaeth sy'n rhaid ei chynnwys yn y cynllun. Yn benodol, o dan adran 75A(2)(d), rhaid i'r cynllun hefyd gynnwys gwybodaeth ragnodedig am ddarparwyr er elw (is-baragraff (iii)) a darparwyr preifat (is-baragraff (iv)) sy'n debygol o gael eu henwi mewn ceisiadau i gymeradwyo lleoliadau atodol.

166. Ymddengys i ni fod yr adran 75A(2)(d)(iii) a (iv) newydd yn ddau bŵer gwneud rheoliadau ar wahân. Nodwyd gennym, fodd bynnag, fod y Memorandwm Esboniadol a'r Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth yn cyfeirio atynt fel pŵer unigol. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog gadarnhau ein dealltwriaeth bod dau bŵer yn adran newydd 75A(2)(d)(iii) a (iv). Cawsom gadarnhad gan y Gweinidog fod drafftio'r Bil yn creu dau bŵer ar wahân i wneud rheoliadau yn adran newydd 75A(2)(d)(iii) a (iv), gan ychwanegu:

"... er eu bod yn debyg o ran natur: un sy'n ymwneud â gwybodaeth am ddarparwyr llety er elw yng Nghymru a'r llall yn ymwneud â gwybodaeth am ddarparwyr preifat yn Lloegr. Maent yn cyflwyno fel pâr ac am y rheswm hwnnw cyfeiriwyd atynt fel un yn y Memorandwm Esboniadol. Mae hyn yn anghywir a byddwn yn diwygio'r Memorandwm Esboniadol cyn gynted â phosibl."⁹⁷

⁹⁷ Llythyr gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 9 Gorffennaf 2024, ymateb i gwestiwn 10

Ein barn ni

167. O ran adran 11 o'r Bil, nodwn gadarnhad y Gweinidog fod dau bŵer ar wahân i wneud rheoliadau yn adran newydd 75A(2)(d)(iii) a (iv), a chroesawn yr ymrwymiad i wneud y cywiriadau angenrheidiol i'r Memorandwm Esboniadol.

Adran 13 – Y ffyrdd y mae plant sy'n derbyn gofal i'w lletya

168. Mae adran 13 o'r Bil yn diwygio adran 81 o Ddeddf 2014 ac mae hefyd yn mewnosod yn Neddf 2014 adrannau newydd 81A, 81B, 81C ac 81D (ar ôl adran 81).

169. Mae adran 81 (Y ffyrdd y mae plant sy'n derbyn gofal i'w lletya a'u cynnal) yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i drefnu bod plentyn sy'n derbyn gofal yn byw gyda rhiant, person sydd â chyfrifoldeb rhiant neu berson y mae gorchymyn trefniadau plentyn wedi'i wneud o'i blaid. Fodd bynnag, pan nad yw hyn yn gyson â llesiant y plentyn sy'n derbyn gofal, neu os nad yw'n rhesymol ymarferol, o dan adran newydd 81A, rhaid i'r awdurdod lleol letya'r plentyn yn y 'lleoliad mwyaf priodol sydd ar gael'. (Fodd bynnag, mae hyn yn ddarostyngedig yn y ddau achos i unrhyw benderfyniad a wneir gan yr awdurdod y byddai'n briodol i'r plentyn gael ei leoli gyda darpar fabwysiad (gweler adran newydd 81C)).

170. Mae'r newidiadau sydd i'w gwneud gan adran 13 yn adlewyrchu newidiadau sydd i'w gwneud i Ddeddf 2016 a fydd yn cyfyngu ar wneud elw wrth ddarparu gwasanaethau maethu a gwasanaethau cartrefi gofal plant fel 'gwasanaethau plant o dan gyfyngiad'.

171. Mae adran newydd 81A(2)) yn ymwneud â'r penderfyniad a wneir gan awdurdod lleol ynghylch y lleoliad mwyaf priodol sydd ar gael ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal. Mae adran bresennol 81(7) o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ystyried nifer o faterion wrth wneud y penderfyniad hwn. Mynegir y rhain fel gofynion o dan adran bresennol 81 yn is-adrannau (8) a (9). (Mae adran 81(7), (8) a (9) o Ddeddf 2014 i'w hepgor gan adran 13(2)(c) o'r Bil).

172. Rhaid i'r materion hyn gael eu hystyried o hyd o dan adran newydd 81A(5), ond mae adran 13 bellach yn diwygio'r broses benderfynu er mwyn darparu, os yw'r awdurdod lleol o'r farn mai'r lleoliad mwyaf priodol (yn unol ag adran newydd 81A(2)) yw un gyda rhiant maeth neu mewn cartref plant (gan roi ffafriaeth – yn ddarostyngedig i'r brif ddyletswydd o dan adran 78⁹⁸ – i leoliad gyda pherthnasau), fel ystyriaeth ragarweiniol, rhaid i'r awdurdod geisio lleoli'r plentyn gyda rhiant

⁹⁸ O dan adran 78(1) o Ddeddf 2014, rhaid i awdurdod lleol sy'n gofalu am unrhyw blentyn— (a) diogelu a hyrwyddo llesiant y plentyn, a (b) defnyddio gwasanaethau sydd ar gael i blant, y mae eu rhieni eu hunain yn gofalu amdanynt, mewn modd sy'n ymddangos yn rhesymol i'r awdurdod yn achos y plentyn.

maeth nid-er-elw neu mewn cartref plant nid-er-elw (yn dibynnu ar ba un sy'n fwyaf priodol yn achos y plentyn).

173. Os nad oes lleoliad gyda rhiant maeth neu ddarparwr cartref plant nid-er-elw ar gael, neu os na fyddai lleoli plentyn mewn lleoliad o'r fath pan fo un ar gael yn gyson â phrif ddyletswydd yr awdurdod lleol o dan adran 78, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried unwaith eto beth yw'r lleoliad mwyaf priodol sydd ar gael yn unol ag adran newydd 81A(2).

174. Ar y pwynt hwn, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried lleoliadau a allai fod ar gael gyda darparwyr eraill, eto gan roi sylw i'r ffactorau y cyfeirir atynt yn adran 81A(5)(a), a hefyd gan roi blaenoriaeth i leoliad gyda pherthnasau (yn amodol eto ar y brif ddyletswydd o dan adran 78 o Ddeddf 2014).

175. Fodd bynnag, mae lleoli plentyn sy'n derbyn gofal gyda darparwr nad yw'n bodloni gofynion adran newydd 81A(4)(a) neu (b) yn y modd hwn yn ddarostyngedig i'r angen i wneud cais i Weinidogion Cymru gymeradwyo'r hyn y cyfeirir ato fel "lleoliad atodol", o dan adran 81B.

176. Mae adran newydd 81B(5)(c) o Ddeddf 2014 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod lleol i ailystyried ei gais i leoli plentyn mewn lleoliad atodol, gan ystyried y rhesymau a'r wybodaeth a bennir gan Weinidogion Cymru. Nid oes unrhyw weithdrefn yn berthnasol i gyfarwyddyd o'r fath. O ystyried bod y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd â phroses benderfynu oddrychol yr awdurdod lleol, gwnaethom ofyn i'r Gweinidog pam nad yw'n destun gweithdrefn graffu'r Senedd. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

"... this relates directly to a local authority's decision on a supplementary placement, and, because it's about an individual looked-after child, we didn't feel that that would be appropriate to be the subject of a Senedd scrutiny procedure.

(...)

So, the individual—. As I say, because it's about an individual child, that would not normally—. As Ministers, we quite often have to make decisions, based on current legislation, around placement of individual children and reasons for doing that, and none of that is subject to Senedd scrutiny, so we would not see that as being appropriate in this particular case, because it is about the placements of individual children. The general principles of what we're seeking to do is what would be the

subject of scrutiny, but not the specifics of placements of individual children.”⁹⁹

Ein barn ni

177. Rydym yn cydnabod sylwadau'r Gweinidog y bydd cyfarwyddiadau o dan adran newydd 81B(5)(c) o Ddeddf 2014 yn ymwneud â lleoliadau plant unigol. Gallai cyfarwyddiadau o'r fath felly gynnwys gwybodaeth sy'n gyfrinachol. Am y rheswm hwnnw, rydym yn fodlon na ddylai cyfarwyddiadau o'r fath fod yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn graffu gan y Senedd.

Pennod 2: Diwygiadau amrywiol mewn perthynas â gwasanaethau gofal cymdeithasol, gweithwyr gofal cymdeithasol a swyddogaethau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol

Adran 14 - Dyletswydd i gyflwyno a chyhoeddi datganiad blynyddol

178. Mae adran 14 yn diwygio adran 10 o Ddeddf 2016, sydd ar hyn o bryd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr gwasanaeth gyflwyno datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru, a rhaid iddynt hwythau wedyn gyhoeddi'r datganiad hwnnw. Mae adran 14 yn diwygio adran 10 fel ei bod yn ofynnol i'r darparwr (ac nid Gweinidogion Cymru) gyhoeddi ei ddatganiad blynyddol ei hun ar ei wefan, a hefyd sicrhau bod copi o'r datganiad hwnnw ar gael ar gais. Mae'r diwygiadau hefyd yn nodi bod rhaid i ddarparwr gwasanaeth gyhoeddi ei ddatganiad o fewn terfyn amser a ragnodir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau (a fyddai'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol) a bod methiant i wneud hynny yn drosedd ddiannod y gellir ei chosbi â dirwy (gweler adran 14(3) sy'n diwygio adran 48 o Ddeddf 2016).

179. Yn Natganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, mae'r Gweinidog yn nodi'r rhesymau pam mae angen pŵer i wneud rheoliadau yn adran 14 i osod terfyn amser at ddibenion cyhoeddi datganiad blynyddol.

“Y bwriad yw defnyddio'r rheoliadau i ragnodi amserlen resymol ar gyfer cyhoeddi datganiadau blynyddol gan ddarparwyr gwasanaeth. Bydd hyn yn sicrhau bod gwybodaeth amserol a chyson ar gael i'r cyhoedd.

⁹⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [117] a [119]

*Mae defnyddio rheoliadau yn hytrach na phennu amserlen ar wyneb y Ddeddf yn rhoi hyblygrwydd i addasu'r amserlen pe bai'n profi'n angenrheidiol yn ymarferol.*¹⁰⁰

180. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog pa amserlen y rhagwelai y byddai yn ei gosod, a pham y byddai angen newid amserlen o'r fath ar unrhyw adeg. Gwnaethom ofyn hefyd am ei barn ar briodoldeb amserlen hyblyg ar gyfer cyhoeddi datganiad blynyddol. Ymatebodd y Gweinidog gan ddweud:

"Cynigir y dylai fod yn ofynnol i'r darparwr gwasanaeth gyhoeddi'r datganiad blynyddol o fewn 30 diwrnod i gyflwyno'r adroddiad i Weinidogion Cymru. Ar hyn o bryd, nid ydym yn rhagweld y bydd yr amserlen hon yn newid, ac nid ydym yn bwriadu darparu amserlen hyblyg ar gyfer cyhoeddi datganiad blynyddol.

*Fodd bynnag, bydd pennu'r amserlen o fewn rheoliadau, yn hytrach nag o fewn y Ddeddf, yn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ymestyn neu leihau'r amserlen pe bai AGC yn wynebu unrhyw faterion annisgwyl yn ymarferol.*¹⁰¹

Ein barn ni

181. Nodwn y dystiolaeth gan y Gweinidog. Yn ein barn ni, mae sylwadau'r Gweinidog yn y Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth yn gwrth-ddweud ei sylwadau yn ei llythyr dyddiedig 9 Gorffennaf 2024. At hynny, os yw'r Gweinidog yn gwybod nawr beth fydd yr amserlen ar gyfer cyhoeddi'r datganiad blynyddol, ni welwn unrhyw reswm rhesymegol pam na ellir gosod y wybodaeth honno ar wyneb y Bil. Pe bai'r Gweinidog am gael yr hyblygrwydd i Weinidogion Cymru allu newid yr amserlen hon yn y dyfodol, byddai'n ymddangos yn rhesymol cadw'r pŵer i wneud rheoliadau ond yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol gan y byddai hyn at ddiben diwygio deddfwriaeth sylfaenol.

182. Yn ein barn ni, byddai'r dull hwn hefyd yn rhoi sicrwydd cynnar i ddarparwyr gwasanaethau ynghylch yr hyn sy'n ofynnol ganddynt, yn hytrach na'u bod yn gorfod aros am reoliadau pe bai'r Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol.

¹⁰⁰ Llywodraeth Cymru, Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru), Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, 19 Mehefin 2024, tudalen 17

¹⁰¹ Llythyr gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 9 Gorffennaf 2024, ymateb i gwestiwn 11

183. Wrth ddod i'r farn hon, nodwn ei bod yn gyffredin i gyrff cyhoeddus, megis Archwilydd Cyffredinol Cymru, orfod cyhoeddi adroddiadau o fewn yr amserlenni a nodir ar wyneb y ddeddfwriaeth berthnasol.

Argymhelliad 20. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 14 o'r Bil i gynnwys yr amserlen ar gyfer cyhoeddi datganiad blynyddol gan ddarparwr gwasanaeth yn adran newydd 10(4A) o *Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016*.

Argymhelliad 21. Dylai'r Gweinidog ystyried cyflwyno gwelliant i adran 14 o'r Bil er mwyn galluogi rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol drafft i newid yr amserlen ar gyfer cyhoeddi datganiad blynyddol gan ddarparwr gwasanaeth (i'w nodi yn adran newydd 10(4A) o *Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016* o ganlyniad i argymhelliad 20).

Adran 19 - Achosion addasrwydd i ymarfer: pŵerau i estyn gorchmynion interim

184. Mae adran 19 o'r Bil yn diwygio adran 147 (Adolygiadau o orchymyn interim: penderfyniadau posibl) o Ddeddf 2016. Mae adran 147 yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â gorchmynion interim ac adolygiadau o orchmynion interim mewn achosion addasrwydd i ymarfer. Mae gorchmynion interim a osodir gan y rheoleiddiwr yn fodd o gymhwyso cyfyngiadau dros dro i berson cofrestredig tra bod ymchwiliadau'n cael eu cynnal i honiadau ynghylch addasrwydd i ymarfer a wneir yn erbyn y person.

185. Mae'r diwygiad i adran 147 yn rhoi pŵer i banel (panel gorchmynion interim neu banel addasrwydd i ymarfer y mae'r achos gorchmynion interim yn cael ei ddwyn ger ei fron) estyn gorchmynion interim am hyd at 18 mis i gyd, gan ddileu'r gofyniad bod ceisiadau'n cael eu gwneud. i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf am estyniadau nad ydynt yn gwthio cyfanswm hyd y gorchmynion y tu hwnt i'r terfyn hwnnw. Bydd cais i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn parhau i fod yn ofynnol pan fo gorchmynion interim i'w estyn y tu hwnt i 18 mis (gweler adran 148 o Ddeddf 2016).

186. Mae adran 19(1) (darpariaeth drosolwg) yn nodi bod y pŵer i estyn y gorchmynion am hyd at 18 mis, ond mae adran 19(2)(b), sy'n diwygio adran 147 o Ddeddf 2016, yn mynnu na ddylai'r estyniad olygu bod y gorchmynion interim yn cael effaith am gyfnod o fwy na 18 mis. Rydym yn pryderu bod y geiriad yn adran 19(2)(b) yn awgrymu na all y gorchmynion interim yn ei gyfanrwydd, nid dim ond yr estyniad, bara mwy na 18 mis, sydd yn ein barn ni'n wahanol i'r hyn a ddywed adran 19(1). O'r herwydd, gwnaethom ofyn i'r Gweinidog egluro'r bwriad. Ymatebodd y Gweinidog fel a ganlyn:

“Mae adran 144(6)(b) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn rhoi'r pŵer i banel addasrwydd i ymarfer gosod gorchymyn interim am hyd at uchafswm o 18 mis. Fodd bynnag, os yw'r panel hwnnw'n gwneud gorchymyn am gyfnod byrrach i ddechrau ac yna'n canfod bod eu hymchwiliadau'n cymryd mwy o amser a bod angen ei ymestyn, nid oes gan y panel y pŵer i wneud hynny. Mae adran 148(1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r panel wneud cais i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf (y Tribiwnlys) am estyniad neu estyniad pellach i orchymyn interim.

Mae hyn yn creu cymhelliant i baneli osod y terfyn amser mwyaf ar orchymynion interim fel mater o drefn, er mwyn lleihau baich gweinyddol a chost ceisiadau sy'n cael eu hailadrodd i'r tribiwnlys. Bydd y diwygiad yn rhoi'r pŵer i banel osod gorchymyn interim am gyfnod llai na 18 mis ac yna, os bydd angen, ymestyn y gorchymyn interim hwnnw hyd at uchafswm o 18 mis heb fod angen gwneud cais i'r tribiwnlys. Byddai unrhyw gais am orchymyn interim i fynd y tu hwnt i 18 mis yn ei gwneud yn ofynnol i'r panel wneud cais i'r tribiwnlys fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Rydym yn derbyn bod rhywfaint o amwysedd yng ngeiriad y trosolwg yn adran 19(1) a byddwn yn adolygu hyn cyn Cam 2.”¹⁰²

Ein barn ni

187. Mewn perthynas ag adran 19 o'r Bil, rydym yn cydnabod bod y Gweinidog yn derbyn bod amwysedd yng ngeiriad y trosolwg yn adran 19(1). Felly, rydym yn croesawu bwriad y Gweinidog i adolygu'r ddarpariaeth hon cyn trafodion Cyfnod 2.

Argymhelliad 22. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 19(1) o'r Bil i sicrhau bod y geiriad yn gyson â bwriad y polisi a nodir yn adran 19(2).

Adran 20 - Taliadau uniongyrchol ym maes gofal cymdeithasol

188. Mae adran 20 o'r Bil yn diwygio Rhan 4 o Ddeddf 2014 er mwyn caniatáu i awdurdod lleol wneud taliadau uniongyrchol i berson (unigolyn neu gorff) a enwebir gan oedolyn sydd â hawl i gael taliad uniongyrchol o dan adran 50 (Taliadau uniongyrchol i ddiwallu anghenion oedolyn) o Ddeddf 2014, waeth a oes

¹⁰² Llythyr gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 9 Gorffennaf 2024, ymateb i gwestiwn 12

gan yr oedolyn hwnnw alluedd ai peidio (o fewn ystyr *Deddf Galluedd Meddyliol 2005* (Deddf 2005)) i dderbyn a rheoli'r taliadau uniongyrchol ei hun.

189. Bwriad y diwygiadau a wneir gan adran 20 yw sicrhau bod gan bob person sydd â hawl i gael taliad uniongyrchol o dan Ran 4 o Ddeddf 2014 (gan gynnwys taliadau a wneir mewn cysylltiad â gwasanaethau ôl-ofal o dan adran 117 o *Ddeddf Iechyd Meddwl 1983* (Deddf 1983)) yr un hawl i enwebu person i dderbyn a rheoli'r taliadau uniongyrchol ar ei ran, waeth a oes ganddo alluedd meddyliol ai peidio (neu yn achos plentyn o dan 16 oed, bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni bod gan y plentyn ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch cydsynio i gael taliad uniongyrchol).

190. Mae'r diwygiadau yn mewnosod adrannau newydd 49A a 53A yn Neddf 2014; yn gosod adrannau newydd 50, 51 a 52 yn lle'r hen adrannau 50, 51 a 52, ac yn gosod Atodlen newydd A1 yn lle'r hen Atodlen A1.

191. Mae paragraff 7 o Atodlen newydd A1 i Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau a wneir o dan yr Atodlen ddarparu'n benodol bod rhaid i daliadau uniongyrchol o dan adran 117 o Ddeddf 1983 adlewyrchu'r swm mae'r awdurdod lleol yn amcangyfrif y byddai ei angen ei dalu am y gwasanaeth dan sylw. Pŵer dewisol yw'r pŵer i wneud y rheoliadau hyn. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog beth fydd yn digwydd os na chaiff y pŵer hwn ei arfer a sut y bydd paragraff 7 yn cael ei roi ar waith. Gwnaethom hefyd ofyn i'r Gweinidog egluro pam na fyddai'n fwy priodol cynnwys y gofynion hyn am y taliadau uniongyrchol ar wyneb y Bil. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

“Mae gallu byrddau iechyd i gynnig taliadau uniongyrchol ar gyfer gwasanaethau ôl-ofal iechyd meddwl yn dibynnu'n llwyr ar wneud y Rheoliadau - ni fydd byrddau iechyd yn gallu cynnig taliadau uniongyrchol heb i'r Rheoliadau fod ar waith ac felly mae'n rhaid i'r fframwaith statudol gynnwys y cyfyngiad a drafodir.

Mae paragraff 1 o'r Atodlen A1 a amnewidiwyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol neu'n caniatáu i awdurdod lleol wneud taliadau uniongyrchol yn lle darparu gwasanaethau i ddiwallu angen unigolyn am wasanaethau ôl-ofal ar ôl cael ei gadw'n gaeth o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Mae paragraff 7 o'r Atodlen honno yn cynnwys cyfyngiad ar ddefnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau ym mharagraff 1.

Effaith y cyfyngiad hwn yw, os bydd Gweinidogion Cymru yn arfer y pŵer ym mharagraff 1 i wneud rheoliadau i alluogi gwneud taliadau uniongyrchol ar gyfer gwasanaethau ôl-ofal a ariennir gan awdurdod lleol, rhaid iddynt gynnwys darpariaeth sy'n pennu bod yn rhaid i daliad uniongyrchol ar gyfer gwasanaethau ôl-ofal fod ar y gyfradd y mae'r awdurdod lleol yn amcangyfrif ei bod yn gyfwerth â chost resymol o sicrhau neu ddarparu gwasanaethau i ddiwallu'r anghenion a aseswyd.

Bydd cynnwys y gofyniad ym mharagraff 7 yn sicrhau na fydd yn ofynnol i unigolyn sy'n dewis cael taliad uniongyrchol i sicrhau ei wasanaethau ei hun i ddiwallu ei anghenion ar gyfer gwasanaethau ôl-ofal awdurdod lleol gyfrannu at gostau ei daliad uniongyrchol fel cyfraniad neu ad-daliad oherwydd bod yn rhaid darparu gwasanaethau ôl-ofal yn ddi-dâl.

Gallai'r gofyniad ym mharagraff 7 fod wedi cael ei gynnwys ar wyneb y Bil ond nid ydym yn credu y byddai hyn yn fwy priodol, nac yn rhoi mwy o fantais, na'r dull drafftio.”¹⁰³

Ein barn ni

192. Rydym yn nodi tystiolaeth y Gweinidog a oedd yn nodi y gallai gofyniad paragraff 7 o Atodlen newydd A1 (sy'n gosod cyfyngiad ar y defnydd o'r pŵer i wneud rheoliadau ym mharagraff 1 o'r Atodlen honno) fod wedi'i gynnwys ar yr wyneb y Bil.

193. Nid ydym wedi ein darbwylllo gan haerriad y Gweinidog y byddai gosod y gofyniad ar wyneb y Bil yn unig “yn fwy priodol, nac yn rhoi mwy o fantais, na'r dull drafftio”. Yn ein barn ni, gallai ailadrodd y cyfyngiad a nodir ym mharagraff 7 o Atodlen newydd A1 mewn rheoliadau a wneir o dan baragraff 1 o'r Atodlen honno arwain at ddryswch ac anghysonderau.

Casgliad 5. Fel mater o egwyddor, os gellir gosod gwybodaeth ar wyneb y Bil, dyna lle y dylid ei gosod, a hynny am resymau tryloywder, sicrwydd ac arfer deddfwriaethol da.

Argymhelliad 23. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol bod paragraff 7 o Atodlen newydd A1 i *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* (i'w mewnosod gan adran 20 o'r Bil) yn

¹⁰³ Llythyr gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 9 Gorffennaf 2024, ymateb i gwestiwn 13

sefyll ar ei ben ei hun ac nad oes angen ailadrodd bwriad y polisi mewn rheoliadau i'w gwneud o dan baragraff 1 o Atodlen newydd A1.

Rhan 2 o'r Bil: Gofal iechyd

194. Mae Rhan 2 o'r Bil yn ymwneud â gofal iechyd ac yn gwneud diwygiadau i Ddeddf y GIG 2006 er mwyn galluogi cyflwyno taliadau uniongyrchol o fewn GIP y GIG.

195. Mae Rhan 2 o'r Bil hefyd yn cyflwyno Atodlen 2, sy'n gwneud mân ddiwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â'r newid hwn.

Adran 24 - Taliadau uniongyrchol am ofal iechyd

196. Mae adran 24 yn mewnosod adrannau newydd 10B, 10C a 10D yn Rhan 1 o Ddeddf y GIG 2006 er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud taliadau uniongyrchol i unigolion yn lle darparu gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion asesedig o dan Ddeddf y GIG 2006.

197. Yn ôl y Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil:

"Mae Gweinidogion Cymru wedi arfer pŵer o dan adran 12 o Ddeddf 2006 i wneud rheoliadau sy'n cyfarwyddo Byrddau Iechyd Lleol (BILLau) i arfer swyddogaethau penodedig Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf 2006 ar eu rhan. Caniateir arfer y pwerau hyn ymhellach i gyfarwyddo'r BILLau i arfer pŵer Gweinidogion Cymru i wneud taliadau uniongyrchol yn lle darparu gwasanaethau."¹⁰⁴

198. Mae adran newydd 10B(5) yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a fyddai'n galluogi BILLau i wneud taliadau uniongyrchol wrth gyflawni dyletswydd y BILLau i ddarparu gwasanaethau ôl-ofal o dan adran 117 o Ddeddf 1983.

199. Mae adran newydd 10C yn nodi y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu pryd a sut y caniateir i daliadau uniongyrchol gael eu gwneud. Caiff rheoliadau a wneir o dan adran newydd 10C ddarparu mai dim ond o dan amgylchiadau penodedig y mae taliadau uniongyrchol i gael eu cynnig, neu gallant atal taliadau o'r fath rhag cael eu gwneud i bobl benodedig.

¹⁰⁴ Memorandwm Esboniadol, Atodiad 1 - Nodiadau Esboniadol, paragraff 92

200. Mae adran newydd 10D yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru a BILLau wneud trefniadau gyda sefydliadau eraill i ddarparu cymorth gyda thaliadau uniongyrchol.

201. Mae adran 24 hefyd yn diwygio adran 203 o Ddeddf y GIG 2006 i ddarparu y bydd y set gyntaf o reoliadau i'w gwneud o dan adran 10B(5) o Ddeddf y GIG 2006 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn y Senedd.

202. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog gadarnhau a ellid defnyddio'r darpariaethau yn adran 24 o'r Bil i ganiatáu taliadau i bobl nad ydynt wedi cael eu hasesu fel rhai sydd ag angen iechyd sylfaenol ac sydd, felly, â'r hawl i dderbyn gofal iechyd parhaus. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

“So, continuing healthcare is a package of NHS-funded support that is provided to adults aged 18 and over, and the policy intent behind the Bill has focused on these adults because this is where the demand for direct payment in lieu of the provision of NHS services has been greatest, and that’s what’s led to the programme for government commitment. Only adults assessed as having a primary health need are entitled to receive continuing healthcare, and our policy intention is that those adults who will receive CHC will be able to seek the direct payments to secure the services that they need to meet their eligible needs, and there is no intention in this Bill to extend it beyond that at this stage.”¹⁰⁵

203. Fel y nodwyd uchod, bydd y set gyntaf o reoliadau i'w gwneud o dan adran newydd 10B(5) o Ddeddf y GIG 2006 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn y Senedd, ond y weithdrefn negyddol wedi hynny. Fel y nodwn ym Mhennod 3, nid yw'n glir i ni a ellir arfer y pŵer ar yr achlysur cyntaf hwn mewn perthynas ag un bwrdd iechyd lleol yn unig, felly gofynnwyd i'r Gweinidog am eglurhad. Dywedodd swyddog a oedd yng nghwmni'r Gweinidog:

“Technically, yes, it could; it could be used in that way. However, it wouldn’t be appropriate to do so, because if we were to use that power in that way, then people in different parts of Wales would be treated differentially. Had we wanted to pilot this, which commencing in relation to one area only would effectively be, we would have sought appropriate piloting provisions. That wasn’t the Government’s intention, so, therefore,

¹⁰⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [75]

*the power in 10B(5) will be used to bring the provisions into force in relation to all local health boards at the same time.*¹⁰⁶

204. Ychwanegodd y Gweinidog fod taliadau uniongyrchol wedi bod ar waith ers tua 10 mlynedd yn Lloegr a bod hon yn weithdrefn a oedd wedi ei phrofi ac yn un nad oedd yn teimlo bod angen ei threialu.¹⁰⁷

205. Mae adran newydd 10B yn cyfeirio at berson heb alluedd. Rhoddir ystyr i'r term hwn gan adran newydd 10B(8)(b) o Ddeddf y GIG 2006, ond fe'i diffinnir gan gyfeirio at Ddeddf 2005 yn ei chyfanrwydd. Rhoddir ystyr i'r ymadrodd gan adran 2 o'r Ddeddf honno, felly gwnaethom ofyn i'r Gweinidog pam nad yw'r darllenydd yn cael ei gyfeirio at y ddarpariaeth honno. Ymatebodd y Gweinidog gan ddweud:

*"Diffinio "galluedd meddyliol" drwy gyfeirio at Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 yn gyffredinol yn hytrach na chyfeiriad mwy penodol at adran 2 yw'r arfer mwyaf cyffredin yn y llyfr statud. Yr un lluniad sy'n cael ei ddefnyddio yn adran 197(5) o Ddeddf 2014."*¹⁰⁸

206. Mae rhai o'r materion y gall rheoliadau sydd i'w gwneud o dan adran newydd 10C(1) eu cwmpasu, fel y nodir yn yr adran newydd 10C(2), yn rhai manwl ac o bosibl yn gymhleth. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog pam ei bod o'r farn bod y weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer rheoliadau o'r fath. Ymatebodd y Gweinidog gan ddweud:

*"Bydd y rheoliadau'n nodi materion technegol sy'n ymwneud â gweinyddu a gweithredu'r taliadau uniongyrchol ac felly byddai'r weithdrefn negyddol yn briodol. Mae'r weithdrefn a nodir yn y Bil yn adlewyrchu'r defnydd o'r weithdrefn negyddol ar gyfer y pwerau presennol i wneud rheoliadau mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol mewn gofal cymdeithasol. Er bod lefel o gymhlethdod yn y manylion, mae'r pwyntiau pwysig o egwyddor wedi'u nodi yn y pwerau galluogi."*¹⁰⁹

Ein barn ni

207. O ran y ddarpariaeth newydd mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol am ofal iechyd, nodwn sylw'r Gweinidog:

¹⁰⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [122]

¹⁰⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Mehefin 2024, CyT [125]

¹⁰⁸ Llythyr gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 9 Gorffennaf 2024, ymateb i gwestiwn 15

¹⁰⁹ Llythyr gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 9 Gorffennaf 2024, ymateb i gwestiwn 16

“..our policy intention is that those adults who will receive CHC will be able to seek the direct payments to secure the services that they need to meet their eligible needs, and there is no intention in this Bill to extend it beyond that at this stage.”

208. Fodd bynnag, wrth ddarllen y Bil, mae adrannau newydd 10B a 10C o Ddeddf GIG Cymru 2006 yn eang iawn eu cwmpas. Er enghraifft, o dan 10B(3)(a), gellid gwneud taliad am unrhyw beth y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei ddarparu o dan adran 2(1) o Ddeddf GIG Cymru 2006, sy'n cwmpasu darparu'r cyfryw wasanaethau sydd ym marn Gweinidogion Cymru yn briodol at ddiben cyflawni unrhyw ddyletswydd a osodir arnynt gan y Ddeddf hon, a gwneud unrhyw beth arall y bwriedir iddo hwyluso cyflawni dyletswydd o'r fath, neu sy'n gydnaws neu'n gysylltiedig â hynny.

209. Mae'n aneglur i ni felly a yw'r ddarpariaeth wedi'i drafftio'n ehangach na bwriad polisi presennol y Gweinidog, ac felly a allai taliadau uniongyrchol gael eu gwneud yn ehangach rywbryd yn y dyfodol.

210. Ein barn ni ers tro yw ei bod yn bwysig ystyried nid yn unig y rheswm pam mae'r Gweinidog yn ceisio cael pŵer i wneud rheoliadau ond hefyd sut y gellid defnyddio pŵer dirprwyedig o'r fath yn y dyfodol ac, yn benodol, gan Weinidog gwahanol, o bosibl mewn llywodraeth wahanol ac mewn Senedd ddiweddarach,

211. Mae ehangder posibl y pwerau yn adran newydd 10B yn gwneud yr ystyriaeth hon yn ddilys mewn perthynas â'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran newydd 10C(1).

212. Mae'r ystyriaeth hon yr un mor gymwys i'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran newydd 10B(5). Mae'r Gweinidog wedi cydnabod y gellid defnyddio'r pŵer mewn perthynas ag un BILLau, er nad dyna'r bwriad a nodwyd; y bwriad yw ei ddefnyddio ar gyfer pob BILL ar yr un pryd. Mae'r Bil felly yn rhoi pŵer ehangach i'r Gweinidog nag sydd ei angen arni ac, yn unol â hynny, credwn y dylid ei gyfyngu i'r bwriad polisi a ddymunir.

Argymhelliad 24. Dylai'r Gweinidog ddarparu manylion ar yr holl wasanaethau a allai fod yn destun taliadau uniongyrchol gan ddefnyddio'r darpariaethau sydd i'w mewnosod yn *Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006* gan adran 24. Dylid darparu'r wybodaeth hon fan bellaf cyn cychwyn trafodion Cyfnod 3.

Argymhelliad 25. Dylai'r Gweinidog adolygu ehangder y darpariaethau yn adran 24 gan gynnwys a all y Bil ganiatáu i Weinidogion Cymru, rywbryd yn y dyfodol, wneud taliadau i bobl nad ydynt wedi'u hasesu fel rhai sydd ag angen iechyd

sylfaenol. Ar ôl gwneud hynny, dylai'r Gweinidog wneud datganiad i'r Senedd am ganlyniad yr adolygiad hwn fan bellaf cyn cychwyn trafodion Cyfnod 3.

Argymhelliad 26. Os mai bwriad y Gweinidog o hyd yw arfer y pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 10B(5) o *Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006* (i'w mewnosod gan adran 24 o'r Bil) yn unig ar gyfer pob Bwrdd Iechyd Lleol ar yr un pryd, dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i adlewyrchu'r bwriad hwnnw (a dileu'r gallu iddo gael ei arfer mewn perthynas ag un Bwrdd Iechyd Lleol yn unig).

213. Nodwn sylwadau'r Gweinidog ynghylch ystyr person heb alluedd meddyliol, a nodir yn adran newydd 10B(8)(b). Er y gall y dull a fabwysiadwyd fod yn gyson ag adran 197(5) o Ddeddf 2014, fel y dengys ein sylwadau yn gynharach yn yr adroddiad hwn, credwn fod manteision i fod mor fanwl gywir â phosibl wrth ddrafftio deddfwriaeth, gan gynnwys gwneud deddfwriaeth yn fwy hygyrch. Yn ein barn ni, er bod manteision i gysondeb, ni ddylai hynny fod ar draul hygyrchedd neu gywirdeb, Am y rheswm hwnnw, credwn y dylid diwygio adran newydd 10B(8)(b) i gyfeirio'n benodol at adran 2 o Ddeddf 2005 (a darpariaeth berthnasol arall ohoni).

Argymhelliad 27. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil fel bod ystyr 'person heb alluedd' fel y'i nodir yn adran newydd 10B(8)(b) o *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014* (i'w mewnosod gan adran 24(2) o'r Bil) yn cael ei ddisgrifio gan holl ddarpariaethau perthnasol *Deddf Galluedd Meddyliol 2005* sy'n pennu ei ystyr.

214. O ran rheoliadau i'w gwneud o dan adran 10C(1), nodwn sylwadau'r Gweinidog fod pwnc y rheoliadau'n ymdrin â materion technegol yn ymwneud â gweinyddu a gweithredu'r taliadau uniongyrchol. Fodd bynnag, yn ein barn ni, maent yn ymdrin â mwy na materion technegol yn unig, a gallai'r materion sydd wedi'u rhestru yn adran 10C(2) fod â goblygiadau polisi sylweddol, Am y rheswm hwnnw, credwn y dylai'r rheoliadau fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, yn hytrach na'r weithdrefn negyddol.

Argymhelliad 28. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil fel bod rheoliadau i'w gwneud o dan adran 10C(1) o *Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006* (i'w mewnosod gan adran 24(2) o'r Bil) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol drafft.

Rhan 3 o'r Bil: Darpariaethau cyffredinol

215. Mae Rhan 3 o'r Bil yn cynnwys nifer o ddarpariaethau cyffredinol, gan gynnwys mewn perthynas â rheoliadau a wneir o dan y Bil, dehongliad, pwerau i wneud darpariaethau canlyniadol a throsiannol, a threfniadau dod i rym.

Adran 28 – Darpariaeth ganlyniadol a darpariaeth drosiannol etc

216. Mae adran 28 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau canlyniadol a throsiannol.

217. Mae adran 28(2)(a) o'r Bil yn cynnwys pŵer Harri'r Wythfed ac mae'n caniatáu rheoliadau i "ddiwygio, addasu, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad". Mae adran 28(3) yn pennu'r gofynion y bydd pwerau dirprwyedig yn y Bil, pan gânt eu harfer, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft. Mae'r ddarpariaeth hon yn cyfeirio at "ddiwygio, addasu neu ddiddymu". Mae'r Memorandwm Esboniadol yn disgrifio ymhellach y weithdrefn graffu gadarnhaol ddrafft sy'n gymwys pan fo rheoliadau yn "diwygio, yn diddymu neu fel arall yn addasu", tra bod y Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth yn cyfeirio at 'ddiwygio neu ddiddymu'. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog egluro a oedd yn bwriadu unrhyw wahaniaeth o ran ystyr neu o ran cymhwysiad y ddarpariaeth yn adran 28(3). Ymatebodd y Gweinidog gan ddweud:

"Y rheswm pam y mae adran 28(2)(a) yn cyfeirio at "ddiwygio, addasu, diddymu neu ddirymu" ac mae adran 28(3) yn cyfeirio at "ddiwygio, addasu neu ddiddymu", yw oherwydd mai "dirymu" yw'r term sy'n gymwys i ddileu darpariaethau mewn is-ddeddfwriaeth ac mae adran 28(3) yn ymwneud ag effeithiau ar deddfwriaeth sylfaenol yn unig.

Mae dileu cyfeiriad at reoliadau sy'n "addasu" deddfwriaeth sylfaenol yn anghywir yn y Datganiad o Fwriad y Polisi ond nid yw'n cael unrhyw effaith na goblygiad ymarferol.

Mae'r cyfeiriad yn y Memorandwm Esboniadol at reoliadau sydd "fel arall yn addasu" yn eiriad sy'n cydnabod bod diwygio a diddymu, mewn iaith nad yw'n gyfreithiol, yn ffyrdd o addasu deddfwriaeth."¹¹⁰

Ein barn ni

218. Rydym yn nodi'r dystiolaeth mewn perthynas ag adran 28(2)(a) o'r Bil a hefyd yn nodi y bydd yn dirprwyo pŵer Harri'r Wythfed i Weinidogion Cymru i alluogi

¹¹⁰ Llythyr gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, 9 Gorffennaf 2024, ymateb i gwestiwn 17

diwygio deddfwriaeth sylfaenol drwy offeryn statudol, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol drafft.